CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**24/01/23**
Teitl:	**Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 2023/24 a'r rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn.**
Diben yr adroddiad:	**Ystyried y Gofyniad Cyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24, y rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn wedi'i diweddaru a gwneud argymhelliad drafft ynghylch lefel arfaethedig y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24.** **Er penderfyniad**
Portffolio Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies - Arweinydd y Cyngor** **Y Cynghorydd Gareth Davies - Aelod Cabinet: Gwasanaethau Cyllid a Chaffael** **Holl Aelodau'r Cabinet**

1. Crynodeb Gweithredol

Croesawir y codiad uwch na'r disgwyl yn y setliad Dros Dro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 23/24, sef 8.1% (ar sail ariannol). Ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24, dylai hyn sicrhau bod modd diogelu'r gwasanaethau i breswylwyr Ceredigion gymaint ag y bo modd, gan gydnabod bod hon yn Gyllideb hynod o heriol o hyd. Dyma'r prif bwyntiau o'r adroddiad hwn:

- Mae cyfanswm y pwysau o ran y Gost y mae'r Cyngor yn ei wynebu yn £22m, swm nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, ac sy'n cyfateb â ffactor chwyddiant penodol o dros 13% ar gyfer Ceredigion. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn 10.5% (ffigwr CPI ar gyfer Rhagfyr 2022). Felly mae angen dod o hyd i ddiffyg o £12m yn y gyllideb o gyfuniad o ystyriaethau ynghylch gwneud Arbedion yn y Gyllideb a chodi'r Dreth Gyngor.

- Nid yw'r meysydd lle y gwelir pwysau o ran y Costau yn gyffredinol yn rhywbeth unigryw i Geredigion. Gwelir themâu cylchol sy'n debyg i'r rhai y cyfeirir atynt yn y wasg genedlaethol, sy'n effeithio ar amrediad o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â sefyllfa ariannol aelwydydd unigol. Maent yn amrywio o Ynni i Danwydd i Ddyfarniadau Cyflog uwch na'r hyn sy'n gyffredin ar gyfer Staff, i Gontractau sy'n cynnwys cymalau sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Yn ogystal, ceir codiad arfaethedig gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w

hardoll nhw, sydd ar lefel nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Mae codiad o 13% i'w Cyllideb nhw yn ei dro yn arwain at bwysau sylweddol ar gostau, mewn termau cymharol, ar gyllideb y Cyngor.

- Mae'r galwadau ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu, a hefyd, ceir dros £1.7m ar ffurf cyllid yn y Setliad Dros Dro (1.5% o'r codiad o 8.1%) y mae angen ei drosglwyddo i wasanaethau a Gomisiynir yn Allanol yng Ngheredigion er mwyn sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn parhau i gael eu talu y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf (sydd wedi codi o £9.90 i £10.90 yr awr – codiad o 10.1%).

- Er gwaethaf heriau gweithredol ar adegau mewn rhai Gwasanaethau, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni rheoleiddwyr allanol. Yn ei asesiad, mae Archwilio Cymru yn barnu bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn sefydlog, er ei fod yn cydnabod bod sialensiau ariannol yn mynd i godi yn y dyfodol, gan greu risgiau ariannol parhaus.

- Lefel y Dreth Gyngor Band D bresennol yng Ngheredigion (i bob cydran) ar gyfer 22/23 yw £1,777.27, sy'n cyd-fynd â'r Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,777.18. Yn ogystal, mae lefelau Treth Gyngor cyfartalog yng Nghymru lawer yn is na'r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol yn Lloegr, sef £2,034 ar gyfer 22/23. Mae elfen bresennol y Cyngor Sir o Dreth Gyngor Band D 22/23 yn werth £1,447.90.

- Mae'r Cabinet a'r Arweinydd, fel pob Cynghorydd, yn ymwybodol iawn o effaith Costau Byw ar sefyllfa ariannol aelwydydd. Cynigir bod y codiadau i'r Dreth Gyngor ar gyfer 23/24 yn cael eu cadw yn is na'r gyfradd chwyddiant gyfredol ac yn cael eu cyfyngu i swm na fydd yn uwch na £10.02 y mis yn ychwanegol ar gyfer elfen y Cyngor Sir.

- Felly, mae'r Arweinydd a'r Cabinet yn argymell bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y Gyllideb yn cyflwyno codiad arfaethedig drafft i'r Dreth Gyngor o fewn amrediad 6.3% i 8.3% at ddibenion craffu pellach (ynghyd â'r holl agweddau eraill yn yr adroddiad hwn), yn gynnar ym mis Chwefror. Mae'r amrediad hwn yn cynnwys elfen o 1.3% mewn perthynas â'r codiad arfaethedig i ardoll yr Awdurdod Tân.

- Cynnydd arfaethedig o 7.3% yn y Dreth Gyngor yw'r opsiwn a ffefrir gan yr Arweinydd a'r Cabinet, sy'n cynnwys elfen o 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn ardoll yr Awdurdod Tân ac sy'n cyfateb i £8.81 y mis yn ychwanegol ar gyfer elfen y Cyngor Sir.

- Mae cyfnod heriol ac anodd o'n blaenau o hyd – gyda chodiad cyfartalog dangosol o +3.1% yn unig ar gyfer Setliad LIC yn 24/25. Canolbwyntir ar raddau'r her fel rhan o'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddaru maes o law.

2. Setliad Ariannol Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol

Cyhoeddwyd setliad Cyllid Dros Dro 23/24 ar gyfer Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar 14/12/22. Mae Atodiad 1 yn cynnwys llythyr eglurhaol y Gweinidog ynghylch y Setliad. Gellir gweld manylion llawn y Setliad trwy droi at:

> Local government revenue and capital settlement: provisional 2023 to 2024 | GOV.WALES
>
> Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu prif ganlyniadau Setliad Dros Dros 23/24 i Geredigion:

a) Cyllid Refeniw

Y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a neilltuwyd i Geredigion yw £129.050m ar gyfer 2023/24, o'i gymharu â £119.419m ar gyfer 2022/23. **Mae hwn yn godiad ariannol o £9.6m (8.1%), ac mae Ceredigion yn y 9fed safle**. Mae Atodiad 2 yn dangos y codiadau cyfatebol ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru, sy'n amrywio o 6.5% (Blaenau Gwent) i 9.3% (Sir Fynwy), ac mae'r codiad cyfartalog yn 7.9%.

Nid oes trosglwyddiadau grant / cyllid i Setliad Dros Dro 23/24, fodd bynnag, mae llythyr eglurhaol y Gweinidog yn cyfeirio at y trosglwyddiad canlynol arfaethedig ar gyfer Setliad Terfynol 23/24:

> *'.....y bwriad i drosglwyddo cyllid ar gyfer y costau cyflogwr cynyddol sy'n gysylltiedig â phensiynau'r Awdurdod Tân ac Achub o grant i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn y setliad llywodraeth leol terfynol'.*

Yn dilyn deialog gydag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y swm perthnasol ar gyfer Ceredigion fyddai £143,000 ac mae'n cyfateb â chodiad o 3.4% i'r ardoll Tân. Felly, caiff y swm hwn ei gynnwys yn y gwaith cyfrifo ar gyfer y Gyllideb, a bydd angen ei drosglwyddo i bennawd cyllideb yr Ardoll Tân er mwyn sicrhau bod yr elfen hon yn parhau i fod yn niwtral o ran cost. Mae'n siomedig bod y newid hwn yn cael ei wneud yn hwyr yn ystod proses y Gyllideb, heb unrhyw ymgynghori amdano ymlaen llaw.

Mae canlyniad Setliad Ceredigion yn adlewyrchu amrediad o ffactorau, ond y prif sbardun yw lefel gyffredinol y cyllid ychwanegol y mae LIC wedi ei chynnwys yn y Setliad. Mae ffactorau perthnasol eraill i'w nodi yn ymwneud â newidiadau i'r data ynghylch Poblogaeth, sy'n gyfrifol am godiad o £54,000, a newidiadau i'r data ynghylch Niferoedd Disgyblion, sy'n gyfrifol am ostyngiad o £70,000.

- Gallai'r cynnydd mewn perthynas â'r Boblogaeth fod wedi bod yn uwch (tua £350,000) gan bod Cyfrifiad 2021 wedi nodi mai poblogaeth Ceredigion yw 71,468, ond roedd y set ddata poblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer Setliad 23/24 yn gyfartaledd cyfunol o ddata poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac amcanestyniadau poblogaeth 2018 ar gyfer 2023, sef 71,188.

Yn ogystal, mae'r 2 Setliad blaenorol o leiaf (21/22 a 22/23) wedi defnyddio data poblogaeth tanddatganedig.

- O ran niferoedd Disgyblion, mae niferoedd y disgyblion Meithrin a Chynradd wedi gostwng 2.7% i 4,951, ac mae niferoedd Uwchradd (Blynyddoedd 7-11) wedi codi 2.5% i 3,599. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol lle y gwelir cynnydd yn niferoedd y disgyblion Uwchradd a gostyngiad yn niferoedd y disgyblion Meithrin a Chynradd pan gymharir data a ddefnyddiwyd ar gyfer Setliadau 22/23 a 23/24.

Roedd £70m ar draws Cymru wedi cael ei gynnwys yn y Setliad er mwyn parhau ymrwymiad LIC i sicrhau bod Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn cael eu talu lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, sydd bellach yn codi i £10.90 yr awr.

b) <u>Cyllid Cyfalaf</u>

Mae cyllid Cyfalaf cyffredinol wedi codi'n sylweddol ar draws Cymru o £150m i £180m. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y codiad hwn 12 mis yn ôl, felly mae eisoes yn cael ei adlewyrchu'n fras yn Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn bresennol y Cyngor.

Y dyraniad Cyfalaf Cyffredinol i Geredigion ar gyfer 23/24 yw £5.860m (roedd yn £4.891m ar gyfer 22/23), wedi'i rannu i Fenthyca â Chymorth o £2.891m a Grant Cyfalaf Cyffredinol o £2.969m. Nid yw lefelau cyllid cyfalaf fodd bynnag fyth wedi dychwelyd i'r uchafsymiau o £7m a welwyd cyn y cyfnod cyni yn ôl yn 2008/09.

Ar ben hyn, bydd swm ychwanegol o £20m ar gael ar draws Cymru yn ystod 23/24 a 24/25 ar gyfer Datgarboneiddio, fel rhan o'r targed sero net ar gyfer 2030. Rydym yn aros am fanylion pellach ynghylch sut i wneud cais a manteisio ar y gronfa hon o hyd.

Yn ychwanegol i gyllid Setliad Refeniw a Chyfalaf craidd a heb ei neilltuo LIC, bydd grantiau penodol gan LIC a gyhoeddir ar wahanol adegau a bydd pob un yn cynnwys eu cynnig grant unigol eu hunain gydag amodau a thelerau penodol. Bellach, ceir cyfnod ymgynghori o 7 wythnos gan LIC yn dilyn y cyhoeddiad am y Setliad Dros Dro, a fydd yn dod i ben ar 02/02/23. Paratowyd ymateb ffurfiol ar ran yr Arweinydd a'r Cabinet a rhennir hwn gyda'r holl Aelodau maes o law.

3. <u>Ystyriaethau ar gyfer y Gyllideb</u>

Mae model y Gyllideb yn cael ei phriodoli yn ôl lefel y cyllid allanol sydd ar gael, lefel y pwysau o ran y Costau y mae Gwasanaethau yn eu hwynebu, a'r diffyg canlyniadol y mae angen ei fodloni trwy gyfrwng cyfuniad o ystyriaethau ynghylch Arbedion i'r Gyllideb a chodiadau i'r Dreth Gyngor.

a) <u>Cyllid sydd ar Gael</u>

Y rhan fwyaf yw codiad ariannol Setliad LIC sef £9.6m.

Mae'n bwysig nodi hefyd, wrth osod Cyllideb 22/23, y gostyngwyd y codiad arfaethedig gwreiddiol i'r Dreth Gyngor, sef 5%, i 2.5%, yn dilyn cyhoeddiad a wnaethpwyd yn hwyr iawn ynghylch cyllid untro gan LIC. Er bod y dull gweithredu hwnnw yn iawn ar y pryd, roedd y cyllid hwn yn gyllid untro ac ni fyddai'n cael ei roi eto, felly roedd angen disodli'r elfen hon mewn ffordd barhaus yn y gyllideb.

Roedd adroddiad monitro Ariannol Ch1 i'r Cabinet ar 06/09/22 yn mynd i'r afael â hyn, gan gymeradwyo'r cam o ddisodli'r defnydd gwreiddiol o gyllid untro LIC o £1m gyda rhagdybiaeth cyfradd casglu Treth Gyngor well o £700,000, wedi'i gyfuno â chodiad o £300,000 i darged Incwm Buddsoddi Rheoli Trysorlys. Ar gyfer 23/24, mae elfen cyfradd casglu Treth Gyngor o £700,000 yn rhan o gyfrifiad Sylfaenol y Dreth Gyngor. Mewn termau net cyffredinol ar gyfer 23/24, ceir ennill o £300,000 o'r cyfrifiad Treth sylfaenol ar ôl ystyried y symudiad o £700,000.

b) Pwysau o ran y Costau

Gwnaethpwyd gwaith iteraidd manwl i nodi ac asesu'r pwysau na ellir ei osgoi y mae pob Gwasanaeth yn ei wynebu o ran y costau, ynghyd â'r agweddau a ystyrir fel eitemau Corfforaethol. Mae'r gwaith hwn wedi nodi gwerth £22m fel pwysau o ran Costau, sy'n cyfateb ag 13.4% o Gyllideb 22/23. Mae lefel y Pwysau o ran y Costau yn neilltuol ac mae'n uwch na'r swm o £13m a welwyd yng nghyllideb 22/23. Cyn COVID a'r lefelau uchel o ran chwyddiant a welir yn economi y DU ar hyn o bryd, roedd y pwysau o ran y costau tua £8m ac yn werth tua 6% o'r gyllideb net.

Mae modd cynnig y crynodeb canlynol o'r pwysau a wynebir o ran y costau, a dangosir manylion ategol pellach yn Atodiad 3:

	£'000	
Yn gysylltiedig â Chostau Cyflogeion		
Diffyg Dyfarniadau Cyflog 22/23 yn erbyn Darpariaeth yn y Gyllideb Sylfaenol	3,058	
Costau Dyfarniadau Cyflog Rhagdybiedig 23/24	6,249	
Yn llai dadwneud Codiad Cenedlaethol Cyflogwyr o 1.25%	(718)	
Costau Cyflogeion eraill	46	
	8,635	*39%*
Yn gysylltiedig â Chostau Safleoedd a Thrafnidiaeth		
Chwyddiant Ynni	1,442	
Chwyddiant sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth	1,266	
Yn llai effaith Ailbrisio Ebrill 2023 NNDR	(43)	
	2,665	*12%*
Yn gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol arall		
Darpariaeth ar gyfer ymgodiadau ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir yn Allanol (gan gynnwys codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol)	2,542	

Buddsoddiad Arian Sefydlu Blwyddyn 2 ym model TAW	224	
Mwy o alw am y Gwasanaeth	3,039	
Darpariaeth Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir / Yn y Sir	2,183	
	7,988	*36%*
Eitemau Eraill		
Chwyddiant arall sy'n ymwneud â Chontractau	717	*3%*
Colli Incwm a/neu Gyllid Grant	551	*2%*
Eitemau Corfforaethol	1,721	*8%*
Cyfanswm y Pwysau o ran y Costau	**22,277**	

Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r manylion a ddangosir yn Atodiad 3, yn dangos:

- Bod costau sy'n gysylltiedig â chyflogeion yn ffactor sylweddol, sef ychydig o dan 40% o gyfanswm y pwysau o ran Costau.

  Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r Dyfarniadau Cyflog cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer 22/23, sy'n llawer uwch na'r ddarpariaeth yn y Gyllideb Sylfaenol (y Dyfarniadau oedd 5% ar gyfer Athrawon a graddfa symudol a oedd yn gostwng ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor, a oedd yn amrywio rhwng 10.5% ar gyfer y rhai sy'n ennill y cyflogau isaf, i 1.45% ar y pen uchaf (gydag effaith gyfartalog o tua 7.5%) ac yn rhannol o ganlyniad i ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer Dyfarniadau Cyflog cenedlaethol amcangyfrifedig ar gyfer 23/24 (nad ydynt wedi cael eu pennu eto).

  Nid yw'r Cyngor yn pennu Dyfarniadau Cyflog cyflogeion, ac nid yw'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch dyfarniadau cyflog ychwaith. Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn mewn perthynas â Chyflogau Athrawon a chorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU sy'n gwneud hyn mewn perthynas â staff cyffredinol y Cyngor.

- Mae'r pwysau o ran y costau ym maes Gofal Cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol, sef 36% o gyfanswm y Pwysau o ran y Costau. Fodd bynnag, mae £2.5m o hwn yn ymwneud â chyllid ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, ac mae elfen fawr (£1.7m) yn ymwneud ag ymrwymiad LIC bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu talu y Cyflog Byw Gwirioneddol, sydd wedi codi o £9.90 i £10.90 yr awr (codiad o 10.1%). Mae angen trosglwyddo hwn i ddarparwyr yn y sector preifat yng Ngheredigion ac mae'n arwain at ymgodiadau chwyddiant dros dro o 8.16% ar gyfer Gofal yn y Cartref a Byw â Chymorth, 8.37% ar gyfer Gofal Preswyl a 9.08% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

  Gwelir pwysau o ran y costau ar gostau Asiantaeth Maethu Annibynnol a chostau Lleoliadau ym meysydd Anableddau Dysgu, Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl hefyd. Er y bu cynnydd sylweddol yng nghostau lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir hefyd (nifer isel ond cost unigol uchel), bydd y strategaeth newydd o greu darpariaeth yn y sir yn arwain at arbedion, ond bydd hyn yn dwyn ffrwyth dros y tymor canolig.

- Mae chwyddiant o ran Safleoedd a Thrafnidiaeth yn cyfateb â 12% o gyfanswm y Pwysau o ran Costau, ac mae hwn yn cynnwys eitemau sy'n cael eu heffeithio mewn ffordd debyg i'r effeithiau a welir ar sefyllfa ariannol aelwydydd unigol – sef Tanwydd ac Ynni. Mae'r rhain yn elfennau cost allweddol ar gyfer gwasanaethau statudol hanfodol megis Casglu Gwastraff, cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, Ysgolion a Chartrefi Gofal.

- Ar draws pob pennawd – mae'r pwysau o ran y costau sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig yn werth £4.8m at ei gilydd (sy'n cyfateb â tua 10.8% o'r gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig o £44.7m). Mae hyn yn cynnwys Dyfarniadau Cyflog Athrawon, Costau Ynni a Dyfarniadau Cyflog staff cyffredinol yn bennaf.

- Yn yr Eitemau Corfforaethol, y prif gydrannau yw costau Ariannu y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Benthyca â Chymorth LIC (£200,000), cost Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£460,000) darpariaeth ganolog ar gyfer risgiau yn ymwneud â chwyddiant o ran ynni a thâl (£400,000) a chodiad arfaethedig i'r ardoll Tân (£519,000).

  Rydym yn aros am gadarnhad ffurfiol am yr ardoll Tân, a wneir yn ystod cyfarfod yr Awdurdod Tân ar 06/02/23, ond cynigir codiad o 13% i Gyllideb yr Awdurdod Tân ac mae hwn wedi cael ei gefnogi fel y dewis a ffefrir ar gyfer y gyllideb. Mae'r effaith ariannol ganlyniadol o £519,000 ar y Cyngor yn cyfateb â chodiad o 1.3% ar y Dreth Gyngor Band D. Ac eithrio'r ffaith bod gan Geredigion 2 Gynghorydd sydd wedi cael eu henwebu i eistedd ar yr Awdurdod Tân, ni all y Cyngor wneud fawr ddim am y pwysau hwn o ran costau gan bod yr Awdurdod Tân yn gorff sy'n gosod ardollau, nid yn gorff preseptu fel yr Awdurdod Heddlu.

  Ni fyddai'n iawn gorfodi gwasanaethau'r Cyngor i wneud arbedion er mwyn gwrthbwyso maint y codiad arfaethedig hwn. Felly, cynigir bod Aelodau yn ystyried trin y pwysau hwn o ran costau fel eitem unigol fel rhan o'r ystyriaethau ynghylch y Gyllideb a Threth Gyngor.

Yn ogystal, rhoddir crynodeb o'r Pwysau o ran Costau yn ôl math a CLO yn Atodiad 4.

c) Diffyg yn y Gyllideb

Felly, mae'r diffyg canlyniadol rhwng swm y Cyllid sydd ar Gael a'r Pwysau o ran Costau ychydig dros £12m:

	£'000
Pwysau o ran Costau	
Pwysau o ran Costau Gwasanaeth	20,556
Pwysau o ran Costau Corfforaethol	1,721
	22,277

Yn Llai y Cyllid sydd ar Gael	
Cynnydd yn y Cyllid gan AEF LIC	9,629
Cynnydd Net yn deillio o gyfrifiad sylfaenol Treth	300
	9,929
Diffyg Cychwynnol yn y Gyllideb	**12,348**

d) Arbedion yn y Gyllideb

Un o'r egwyddorion arweiniol cychwynnol gan y weinyddiaeth wleidyddol newydd oedd osgoi toriadau i'r Gwasanaeth a ddarparir (gymaint ag y bo modd), lleihau gweithgarwch Dileu Swyddi gymaint ag y bo modd a pheidio dilyn llwybr o wneud toriadau tameidiog a pharhau i fabwysiadu dull gweithredu corfforaethol a thrawsnewidiol tuag at arbedion yn y tymor canolig.

O ystyried maint yr her ariannol, mae pen draw o ran pa mor bell y gellir cyflawni holl agweddau'r dull gweithredu hwn yn llawn, a gyda Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig, bydd angen i ysgolion unigol wneud penderfyniadau rhagweithiol, wrth i lefel Balansau eu Hysgol a'r cyllid ar ffurf grant sydd ar gael, leihau.

Felly, mae'r Grŵp Arweiniol wedi herio a diwygio Cynllun Arbedion Ariannol Tymor Canolig drafft, gyda'r nod o sicrhau arbedion o hyd at £10m ar gyfer 23/24 a gweithredu cynlluniau ar gyfer rhaglenni sy'n ymestyn i'r dyfodol hefyd. Mae'r dulliau gweithredu a fabwysiadwyd yn cynnwys set gychwynnol o ffrydiau gwaith dan faner 'Gwneud pethau yn Wahanol: Dull gweithredu Corfforaethol', yn ogystal ag adolygiad o benawdau cyllideb Corfforaethol penodol a chanlyniad canlyniadau diweddaraf Tair Blynedd Cronfa Bensiwn Dyfed.

O ystyried y ffaith nad yw'r eitemau hyn yn canolbwyntio ar Gyllidebau Ysgol Dirprwyedig unigol ar y cyfan, cydran olaf yr Arbedion arfaethedig yw gofyn i Ysgolion chwilio am elfen o lefel gyffredinol yr Arbedion y mae gofyn eu gwneud. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o lefel uwch bresennol Balansau Ysgolion sef £8.3m (er bod yr amcanestyniadau yn nodi y disgwylir i'r rhain, o bosib ostwng ychydig dros 50% erbyn 31/03/23) a'i fod yn rhannol yn ddarlun a welir yn gyffredinol ar lefel genedlaethol, gan nad yw lefel cyllid LIC a dderbynnir yn ddigonol. Nid oes modd, felly, ariannu'r holl bwysau o ran Costau ar Ysgolion, sef £4.8m, heb gynnydd o tua 12% i'r Dreth Gyngor neu sicrhau arbedion pellach o tua £2.1m gan Wasanaethau eraill. Cyn setliad Dros Dro LIC, rhoddwyd sefyllfaoedd ariannol i Ysgolion sef naill ai cyllidebau gwastad neu gynnydd o 3% o ran y cyllid.

Byddai cyfyngu ar y cynnydd i Gyllidebau Ysgolion Dirprwyedig yn agos i 5.8% yn golygu bod Dyfarniadau Cyflog Athrawon ar gyfer 22/23 (hysbys) a 23/24 (amcangyfrifedig) a'r pwysau o ran costau Ynni yn cael eu hariannu yn llawn o hyd, ynghyd â chyfraniad pellach tuag at bwysau eraill o ran costau (y maent yn deillio o Ddyfarniadau Cyflog Staff eraill yn bennaf).

O ganlyniad, cynigir yr arbedion amcangyfrifiedig canlynol yn y Gyllideb:

	£'000
Gwneud pethau'n Wahanol: Dull gweithredu Corfforaethol	
Incwm Buddsoddi Rheoli Trysorlys	1,000
Adolygiad o Asedau Corfforaethol – Defnydd, cynhyrchu Incwm	250
Buddsoddi mewn Cynlluniau Ynni	125
Dull Gweithredu newydd tuag at Feithrin cyfleoedd	50
Adolygiad o Gludiant Dysgwyr	400
Adolygiad Strategol o Ysgolion Cynradd	100
Incwm Parcio Ceir	400
Incwm gan Daliadau a Ffioedd Cyffredinol	250
Adolygu'r defnydd o gyllid y Rhaglen Gyfalaf	500
	3,075
Adolygiad o Benawdau'r Gyllideb Gorfforaethol	
Dileu'r Cyfraniad i Roi Hwb i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer yr Economi	2,440
Dileu'r gyllideb COVID Gorfforaethol	500
	2,940
Gostyngiad yng nghyfradd Cyfraniad Cyflogwyr i Gronfa Pensiwn Dyfed	782
Cyfyngu ar y cynnydd yn y gyllideb Ysgolion Dirprwyedig i 5.8%	2,065
Cyfanswm yr Arbedion i'r Gyllideb a gynigir	**8,862**

Yn naturiol, bydd llif gwaith yn symud ymlaen ac yn cyflawni ar gyflymder gwahanol. Pe bai rhai ardaloedd yn gorgyflawni, yna bydd yr arbedion hynny'n cael eu bancio'n llawn, a fyddai wedyn naill ai'n darparu byffer yn ystod y flwyddyn pe bai unrhyw feysydd yn tangyflawni neu'n well yn darparu arbedion cyn yr angen i wneud hynny ar gyfer 2024/25.

e) Ystyriaethau ynghylch Codi'r Dreth Gyngor

Gellir rhoi'r crynodeb canlynol o'r sefyllfa sy'n deillio o baragraffau a) i d) uchod:

	£'000
Cyfanswm y Pwysau o ran Costau	22,277
Yn llai y Cyllid sydd ar Gael	-9,929
Diffyg cychwynnol yn y Gyllideb	**12,348**
Yn llai Arbedion i'r Gyllideb a gynigir	-8,862
Diffyg cyn yr ystyriaethau am y Dreth Gyngor	**3,486**

Byddai diffyg oddeutu £3.5m yn cyfateb â chodiad o 7.3% i'r Dreth Gyngor ar gyfer Band D, gan nodi y byddai'r codiad arfaethedig o 13% i gyllideb yr Awdurdod Tân yn cyfateb ag 1.3% o hyn. Ar y lefel hon, byddai'r cydbwysedd rhwng y cyllid wedi'i

rannu rhwng LlC a Threthdalwyr Ceredigion yn 72% yn erbyn 28%, sy'n parhau i fod lawer yn is na'r rhaniad o 80:20 a welwyd dros ddegawd yn ôl.

Mae costau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r premiwm 2il Gartrefi Treth Gyngor yn ffactorau ansefydlog sy'n newid yn unol â gwahanol lefelau o ran y codiad i'r Dreth Gyngor. Felly, os ystyrir sefyllfaoedd eraill yn wahanol i 7.3%, gallai'r eitemau hyn sy'n ymwneud â'r pwysau o ran y Costau newid hefyd. Yn fras, mae pob newid o 0.25% i'r Dreth Gyngor yn cyfateb â budd net o tua £100,000. H.y. mae newid o 1% yn y Dreth Gyngor yn sicrhau tua £400,000, ar ôl yr ystyriaethau ansefydlog hynny ac yn ychwanegu cost fisol o £1.21 i lefel Treth Cyngor Band D.

Pe bai Aelodau yn dymuno darparu lefel wahanol o ran y cyllid ar gyfer cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig (gan nodi bod y pwysau amcangyfrifedig ar Gostau Ysgolion yn tua 10.8%), byddai modd ystyried y sefyllfaoedd canlynol:

Lefel y Codiad i'r Dreth Gyngor	Cynnydd bras i'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig *	Treth Gyngor Band D ganlyniadol (elfen Ceredigion yn unig)	Codiad blynyddol o'i gymharu â 2022/23	Codiad Misol Cyfatebol	Codiad Wythnosol Cyfatebol
2022/23		£1,447.90			
+6.3%	4.9%	£1,539.12	£91.22	£7.60	£1.75
+7.3%	5.8%	£1,553.60	£105.70	£8.81	£2.03
+8.3%	6.7%	£1,568.08	£120.18	£10.02	£2.31

* *Sylwer mai'r codiadau i'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig a ddangosir yw'r codiad cyfartalog bras i gyfanswm y Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig gyffredinol, ac ar lefel ysgolion unigol, caiff y codiadau priodol eu gyrru gan er enghraifft, niferoedd disgyblion CYBLD ac ati, felly bydd sefyllfa pob ysgol unigol yn unigryw iddyn nhw.*

Y Dreth Gyngor Band D a osodwyd ar gyfer elfen Ceredigion o'r dreth Gyngor yn 2022/23 oedd £1,447.90, gan godi i £1,777.27 ar ôl cynnwys elfennau presept Cynghorau Tref a Chymuned cyfartalog a'r Heddlu. Y Bil Treth Gyngor Band D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 22/23 oedd £1,777.18 a'r lefel Treth Gyngor Band D gyfartalog ar gyfer Awdurdod Unedol yn Lloegr oedd £2,034 ar gyfer 22/23.

4. Gofyniad ar gyfer y Gyllideb

O ganlyniad i'r ystyriaethau manwl ar gyfer y Gyllideb ddrafft, byddai'r Gofyniad cyfredol o £165.843m ar gyfer Cyllideb 22/23 yn codi dan y gwahanol sefyllfaoedd fel a ganlyn:

Lefel y Codiad i'r Dreth Gyngor	Gofyniad ar gyfer y Gyllideb £'000	Treth Gyngor Band D ganlyniadol (elfen Ceredigion)
+6.3%	179,627	£1,539.12
+7.3%	180,101	£1,553.60
+8.3%	180,576	£1,568.08

Dangosir y cyfrifiad o ran y gofyniad manwl ar gyfer y Gyllideb ar gyfer sefyllfa 7.3% yn Atodiad 5. Gan bod y cynnig hwn am y Gyllideb yn seiliedig ar setliad Dros Dro 23/23, mae'n destun unrhyw addasiadau y bydd angen eu cynnwys efallai ar ôl y cyhoeddir Setliad Terfynol LlC. Felly, byddai angen gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â'r canlynol:

- trosglwyddir gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i RSG i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol (e.e. grant Pensiwn o £143,000 sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod Tân i gyllideb yr ardoll Tân)
- unrhyw newidiadau penodol eraill i gael eu targedu i'r Gwasanaeth(au) yr effeithir arno/arnynt yn uniongyrchol pan fo hynny'n briodol
- gwneir addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol er mwyn delio ag unrhyw newid arall i AEF.

Byddai'r ystyriaethau am y Gyllideb gyffredinol yn cael eu trosi yn ddyraniadau arfaethedig drafft i Wasanaethau, fel y nodir yn y crynodeb isod (yn unol â phenderfyniadau Llawn terfynol y Cyngor am lefelau Treth Gyngor a'r Gyllideb ar 02/03/23). Dangosir dadansoddiad pellach o'r newidiadau o gyfansymiau Cyllideb Rheoladwy 2022/23 i 2023/24 drafft yn Atodiad 6.

Symudiadau Cyfansymiau yn y Gyllideb fesul Gwasanaeth (ar sail sefyllfa Treth Gyngor o 7.3%)

	Cyfansymiau Cyllideb Rheoladwy Diweddaraf 2022/23 £'000	**Cyfansymiau Cyllideb Rheoladwy Drafft 2023/24 £'000**	*Newid o'i gymharu â Chyllideb Ddiweddaraf 2022/23 %*
Cyswllt â Chwsmeriaid	6,150	6,431	4.6%
Gwasanaethau Democrataidd	4,628	4,977	7.5%
Yr Economi ac Adfywio	3,637	3,984	9.5%
Cyllid a Chaffael	18,800	18,900	0.5%
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,078	19,431	7.5%
Cyfreithiol a Llywodraethu	1,566	1,649	5.3%
Pobl a Threfniadaeth	2,161	2,321	7.4%
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,340	2,468	5.5%
Porth Cymorth Cynnar	4,355	5,160	18.5%
Porth Cynnal	28,602	33,870	18.4%
Porth Gofal	13,603	16,256	19.5%
Ysgolion a Diwylliant	50,887	54,576	7.2%
Grŵp Arweiniol	6,981	4,596	-34.2%
Ardollau, Premiwm Treth Gyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	4,055	5,482	35.2%
CYFANSWM	**165,843**	**180,101**	***8.6%***

5. Risgiau i'r Gyllideb

Mae papur am Risgiau i'r Gyllideb, wedi'i ddiweddaru ar gyfer newidiadau perthnasol, ynghlwm yn Atodiad 7. Mae'n nodi'r prif risgiau ar gyfer y Gyllideb, ynghyd â threfniadau rheoli a sylwadau priodol a weithredir i leihau pob risg gymaint ag y bo modd.

6. Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn

Mae rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn wedi'i ddiweddaru ynghlwm (Atodiad 8), ynghyd â'r Strategaeth Cyfalaf (Atodiad 9).

Y Rhaglen Cyfalaf wedi'i diweddaru a gynigir ar gyfer 2022/23 yw £35.2m a £60.1m ar gyfer 2023/24. Cyfanswm y rhaglen Gyfalaf arfaethedig dros y cyfnod rhwng 2022/23 a 2025/26 yw £129.8m. Ar yr adeg hon cyn cychwyn ar y flwyddyn ariannol newydd, mae manylion nifer o grantiau penodol heb gael eu cyhoeddi eto. Felly, ychwanegir y rhain i'r rhaglen Gyfalaf pan fydd y llythyrau cynnig grant yn cyrraedd ac yn cael eu derbyn. Mewn rhai achosion, bydd hwn yn gofyn am elfen o gyllideb cyfatebol hefyd efallai, ac mae rhywfaint o ddarpariaeth eisoes yn cael ei wneud am hyn yn y Rhaglen.

Fel y bydd yr Aelodau yn ymwybodol, cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau adrodd ac o strwythur y Grŵp Datblygu, sef y fforwm strategol er mwyn ystyried a chanolbwyntio ar fuddsoddiad dros y tymor hir yn y dyfodol er mwyn darparu a chynnig sylfaen ar gyfer cyflawniad Strategaeth Gorfforaethol 2022/2027 y Cyngor a'i Flaenoriaethau Corfforaethol cysylltiedig.

Bydd dull gweithredu wedi'i gryfhau o'r newydd yn cynnig cynllun a gweledigaeth fwy strategol dros y tymor hir ar gyfer asedau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys symud i ddull gweithredu mwy thematig sy'n canolbwyntio ar raglen tuag at Gynllunio Rheoli Asedau, a llai o ddull gweithredu fesul prosiect, yn ogystal â gorwel cynllunio dros dymor llawer hwy.

Wrth i'r trefniadau newydd ddechrau dod i rym, mae'r iteriad diweddaraf o'r Rhaglen Gyfalaf amlflwyddyn yn cynnwys elfen o sefyllfa gynhaliol iddi fel rhagosodiad. Wrth symud ymlaen, rhagwelir y bydd angen cael llawer mwy o flaenoriaethu a galw er mwyn cyflawni Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027. Er enghraifft, mae galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn deillio o'r Arolygon o Gyflwr Adeiladau, gofynion Disodli Fflyd, Cynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd, buddsoddiad Economaidd, buddsoddiad Sero Net carbon a Chynlluniau a fydd yn sicrhau arbedion i'r Gyllideb Refeniw e.e. Arbed Ynni. Rhai enghreifftiau yn unig yw'r rhain, a bydd meysydd eraill.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn debygol o esblygu yn eithaf sylweddol gydag amser, a bydd yn cynnwys ystyriaethau hanfodol ynghylch rhesymoli Asedau. Felly, mae'r canlynol yn adlewyrchu'r newidiadau allweddol yn yr iteriad arfaethedig diweddaraf hwn o'r Rhaglen Gyfalaf:

- Gwneir y newidiadau lleiaf i'r Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ddiweddaraf, o'i chymharu â'r adroddiad yn ystod y flwyddyn i'r Cabinet yn ddiweddar law yn llaw ag adroddiad monitro Ariannol Ch2.
- Ar y cyfan, mae elfennau'r rhaglen a ariannir gan y Cyngor yn 2023/24 yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro, a'r prif ychwanegiadau yw darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau i leihau costau Ynni a chyllideb uwch er mwyn Disodli'r Fflyd. Y cynlluniau arwyddocaol a ariannir gan grant yw Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a'r Cynlluniau Amddiffyn Arfordirol a ariannir gan LIC.
- Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth yn mynd yn ei flaen. Am y tro yn unig yw'r costau cysylltiedig a amcangyfrifir ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn parhau i aros am gymeradwyaeth o'r arian oddi wrth Lywodraeth Cymru ac rydym nid hyd yma heb benderfynu ar y prisiau tendr terfynol. Felly mae'r risg y gall yr amcangyfrifon terfynol gynyddu ymhellach. Bydd yr arian oddi wrth y Cyngor (dim mwy na 15% o gostau'r cynllun) yn dod o'r Gronfa Cydnerthedd Cymunedol ac Hyrwyddo Amgylcheddol. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Gwariant dros dro wedi eu proffilio dros y blynyddoedd ariannol canlynol sef 2022/23, 2023/24 a 2024/25.

- Bydd gan raglen Tyfu Canolbarth Cymru gynlluniau penodol i'w hychwanegu i'r rhaglen Gyfalaf ar ôl iddynt gyrraedd cam cymeradwyo yr Achos Busnes Llawn ac ar ôl i'r cyllid cytunedig dan fargen twf Tyfu Canolbarth Cymru gael ei ffurfioli ar ffurf llythyrau cynnig grant.

- Cynhaliwyd adolygiad byr i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd priodol o'r Rhaglen Gyfalaf. Y canlyniad arfaethedig yw y bydd yr holl offer TGCh yn cael ei gyfalafu nawr ac y bydd ffocws o'r newydd ar Welliannau Prifffordd lle y bydd gwariant yn ymestyn oes a gwerth asedau sy'n gysylltiedig â Phriffyrdd yn sylweddol. Felly, ceir dyraniadau cyfalaf uwch arfaethedig yn y meysydd hyn, a ariannir yn rhannol gan gyfraniad refeniw.

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cymeradwyaeth grant Ffyniant Bro o £10.8m gan Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys darparu cynlluniau ar draws 2021/22 ac ymlaen i 2024/25. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2022, dyfarnwyd Cyllid Ffyniant Gyffredin i'r Cyngor sy'n cynnwys cydran cyfalaf rhanbarthol o £7.2m yn ystod y cyfnod o 2022/23 i 2024/25. O blith hwn, mae £2.5m yn ymwneud â Cheredigion ac mae £4.7m yn ymwneud â Phowys. Y Cyngor yw'r corff atebol arweiniol dros y cyllid hwn, felly bydd yn cael yr holl gyllid, ond yna bydd yn gwneud taliadau cyllid ar ffurf grant i Gyngor Sir Powys am eu hagweddau nhw, gyda'r trefniadau yn cael eu seilio ar gytundeb cyfreithiol.

Felly, cyflwynir y Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn a'r Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor Llawn nawr er mwyn eu cymeradwyo a'u hargymell, fel rhan o broses y Gyllideb.

7. <u>Cydnerthedd Ariannol</u>

Mae cynaladwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor yn gadarn, ac yn cael ei gynorthwyo gan fantolen sy'n parhau i fod yn gref. Mae dull gweithredu a hanes y Cyngor yn seiliedig ar ddull gweithredu sydd wedi bod yn gadarn yn gyson tuag at reolaeth ariannol, ac mae'n cael ei gynorthwyo gan dîm Cyllid proffesiynol profiadol.

Mae'r Grŵp Arweiniol, dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn gweithredu mewn dull strategol corfforaethol, ac maent wedi gweithio'n galed ar y cyd, gyda'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet, i wynebu'r sialensiau ariannol yn gadarn ac i lunio'r cynigion hyn ynghylch y Gyllideb ddrafft. Fel y mae adroddiadau Monitro Ariannol Ch1 a Ch2 i'r Cabinet eleni wedi dangos, mae rheolaeth ariannol yn yr hinsawdd gyfredol yn heriol iawn.

Mae Archwilio Cymru yn adolygu ac yn herio sefyllfa ariannol y Cyngor yn rheolaidd. Daeth eu hasesiad diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, i'r casgliad bod:

'Sefyllfa ariannol y Cyngor yn sefydlog, ac mae'r cyllid ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi helpu'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae sicrhau arbedion cynaliadwy a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol mewn hinsawdd ariannol sy'n gynyddol heriol yn risg ariannol arwyddocaol parhaus.'

Cydnabyddir bod lefel y balansau ariannol ar y fantolen wedi cyrraedd ei hanterth ac y bydd yn dechrau gostwng wrth i gynlluniau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn penodol gael eu gweithredu (e.e. Defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pwysau Chwyddiant a Chostau, defnydd Ysgolion o'u Balansau Ysgol Dirprwyedig, Defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer Cydraddoli Lleoliadau Gofal Cymdeithasol). Caiff hyn ei wneud mewn ffordd a reolir, a bydd yn parhau i gael ei wneud mewn ffordd a reolir. Mae hyn yn eithriadol o bwysig, nid yn unig ar gyfer sefydlogrwydd ariannol, ond hefyd o ganlyniad i'r Arbedion Cyllideb tybiedig o £1.0m sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys.

Pe bai defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ddefnyddio fel strategaeth ar gyfer y Gyllideb, byddai hyn yn peryglu cyflawniad yr eitem hon a byddai'n mynd yn groes i safbwyntiau blaenorol Archwilio Cymru am y mater hwn. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynnal lefel fenthyca 'fewnol', lle y mae benthyca allanol wedi cael ei gadw mor isel ag y bo modd a phe bai hyn yn cael ei ddadwneud, byddai goblygiad sylweddol o ran y gost i hyn.

Mae'r Gyllideb wastad wedi cael ei gosod fel na wneir unrhyw alw cyllideb sylfaenol o Falansau Cyffredinol, ac eithrio er mwyn ariannu eitemau untro eithriadol iawn pe bai'r angen yn codi. Y targed a gymeradwywyd gan y Cyngor yw bod Balansau Cyffredinol yn cael eu cynnal ar lefel o rhwng 3% a 5% y gwariant net.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa ragolygol, gyda'r rheswm dros y ganran sy'n gostwng yn cael ei gyrru gan cynnydd arfaethedig uwch na'r cyfartaledd yng Ngofyniad Cyllideb y Cyngor:

	31/03/22 Gwirioneddol	**31/03/23 Cynlluniwyd**	**31/03/24 Cynlluniwyd**
Balansau Cyffredinol – Swm	£6.7m	£6.7m	£6.7m
Balansau Cyffredinol – Canran	4.1%	3.7%	3.7%

8. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Bu'r gwaith o reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn 22/23, yn ogystal â phroses Cyllideb 23/24, yn heriol o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol bresennol a'r tirlun economaidd sy'n newid o hyd. Mae hyn yn cynnwys effaith lefelau chwyddiant sylweddol yn cael eu gweld mewn meysydd lluosog a Gwasanaethau sy'n wynebu sialensiau gweithredol o ganlyniad i effeithiau yn dilyn COVID a rhai problemau recriwtio a chadw staff. Gwaethygir y sialensiau ariannol ar gyfer y Tymor Canolig ymhellach pan welir nad yw lefelau cyllid dangosol yn y dyfodol yn debyg iawn i'r canlyniadau dilynol sy'n digwydd.

Er hyn, mae'r gwaith 'Gwneud pethau'n Wahanol: Dull Gweithredu Corfforaethol' y mae'r Grŵp Arwain yn bwrw ymlaen ag ef ar ffrydiau gwaith amrywiol (y mae ganddynt ddimensiynau amlflwyddyn yn rhan fwyaf yr achosion) yn cynnig arwyddion cynnar ar hyn o bryd y caiff arbedion posibl o o leiaf £2.1m eu sicrhau ar gyfer 24/25 ac £1.9m ar gyfer 25/26.

Mae Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog sy'n cyd-fynd â Setliad Dros Dro 23/24 yn datgan:

> *'Y dyraniad cyllid refeniw craidd ddangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 yw £5.69bn – sy'n cyfateb ag ymgodiad o £169m (3.1%). Mae'r ffigwr hwn yn un dangosol ac yn ddibynnol ar ein hamcangyfrifon cyfredol o incwm NDR ac unrhyw gyllidebau 2024-25 y DU.'*

Felly, mae'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd i adlewyrchu ac i ddarparu manylion pellach am y ffrydiau gwaith, ac er mwyn rhoi mwy o amser i ystyried setiau data Cyfrifiad 2021, yn ogystal â defnyddio heb fod dros lefel ddangosol 3.1% o gyllid Setliad LIC ar gyfer 24/25 fel procsi cyllid ac ystyriaethau i'w gwneud ynghylch amcangyfrifon Dyfarniadau Cyflog yn y dyfodol (y maent yn parhau i fod yn anodd i'w hamcangyfrif).

Felly, bwriadir cyflwyno'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig wedi'i diweddaru fel adroddiad ar wahân maes o law, er mwyn caniatáu dull gweithredu mwy ystyriol ac sy'n cynnwys mwy o ffocws, o ystyried y ffaith y bydd penderfyniadau anodd pellach i'w gwneud ar ôl 23/24. Mae'n debygol y bydd angen i'r gwaith ar Gyllideb 24/25 gychwyn lawer yn gynharach nag arfer hefyd.

9. Casgliadau a Barn Swyddog Adran 151

Disgwylir i setliad Terfynol LIC gael ei gyhoeddi ar 28/02/23, yr un diwrnod â Chyllideb Derfynol LIC. Nid yw hyn yn caniatáu bron unrhyw amser cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 02/03/23, lle y bydd yr holl Aelodau yn cyfarfod i ystyried a gwneud penderfyniadau terfynol am y Gyllideb Net a lefel y Dreth Gyngor. Felly, caiff trosglwyddiad arfaethedig y grant Pensiynau Tân i'r Setliad Terfynol ei gynnwys yn ffigurau Gofyniad y Gyllideb drafft a gyflwynir ar yr adeg hon.

Ar ôl ystyried pob agwedd, mae modd sicrhau cyllideb gytbwys o fewn goddefiannau'r sefyllfaoedd yn yr adroddiad a chan ystyried lefel gyffredinol y Cyllid sydd ar gael a'r arbedion i'r Gyllideb a gynigir. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Grŵp Arweiniol, eu rheolwyr a'r staff am y gwaith a wnaethpwyd ar y gyllideb tan yr adeg hon, yn ogystal â'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael a holl Aelodau'r Cabinet am eu cyfeiriad, eu mewnbwn a'u cyfraniadau adeiladol. Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd a bydd cyflawni Arbedion y Gyllideb yn ffrydiau gwaith parhaus mewn sawl achos.

Er bod proses Cyllideb 23/24 yn ddigon heriol ynddi ei hun, mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn ddigalon, felly bydd Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig a fydd yn dwyn ffocws o'r newydd yn hanfodol er mwyn parhau hanes y Cyngor o sicrhau rheolaeth ariannol gadarn, gwelliant parhaus a sicrhau cyllidebau cytbwys. Bydd hyn yn gofyn am barhau a chyflawni arbedion ac arbedion effeithlonrwydd pellach i'r Gyllideb.

Gan ystyried yr holl faterion yn yr adroddiad hwn, fel swyddog Adran 151, gallaf gadarnhau felly bod y gyllideb arfaethedig wedi cael ei pharatoi mewn ffordd gadarn. Mae'n destun Arbedion i'r Gyllideb a chaiff y rhain eu monitro mewn ffordd weithredol yn ystod y flwyddyn trwy gyfrwng y trefniadau rheoli ariannol arferol. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r Cyllidebau yn ystod y Flwyddyn Ddiweddaraf yn rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet, adrodd am eithriadau yn ôl y gofyn a Deiliaid Cyllidebau yn cymryd camau unioni yn ddigon cynnar yn ystod y flwyddyn os bydd problemau annisgwyl yn codi. Gallaf gadarnhau hefyd bod y cynlluniau Cyfalaf a'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn ddarbodus ac yn fforddiadwy ac yr ystyrir bod y risg gyffredinol ar yr agweddau hyn yn isel.

Gwneir argymhelliad Treth Gyngor a Gofyniad Cyllideb arfaethedig terfynol i'r Cyngor Llawn yn dilyn proses Craffu'r Gyllideb ac yn ystod cyfarfod y Cabinet a gynhelir ar 14/02/23.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam:

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried y materion Tymor hir, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n deillio o'r cynigion manwl am y gyllideb.

Argymhellion:

1. Nodi bod y codiad arfaethedig yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (eu hopsiwn o 13% i'r Gyllideb) yn golygu pwysau o £519,000 o ran y gost ar Gyllideb 23/24 y Cyngor, sy'n cyfateb â chynnydd o 1.3% yn Nhreth Gyngor preswylwyr Band D Ceredigion.

2. Cymeradwyo opsiwn a ffefrir ar gyfer Gofyniad Cyllideb 23/24 drafft o £180.101m, a fyddai'n cynrychioli cynnydd arfaethedig o 7.3% i Dreth Gyngor Band D at ddibenion y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân).

3. Argymell y dylai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer Gofyniad Cyllideb 23/24 a'r cynnydd canlyniadol i'r Dreth Gyngor at ddibenion y Cyngor Sir sef :

    a) Cynnydd o 6.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.

    b) Cynnydd o 7.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig

yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.101m ar gyfer 23/24.

c) Cynnydd o 8.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.576m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.

d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i ddarparu cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu'r Gyllideb a bod swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei gadernid.

4. Pan gyhoeddir setliad Terfynol 23/24, bod:

   a) Gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i RSG yn cael eu trosglwyddo i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys Grant Pensiynau yr Awdurdod Tân o £143,000 i gyllideb yr Ardoll Tân.

   b) Dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.

   c) Rhoddir sylw i unrhyw newid arall i'r AEF trwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.

5. Nodi yr ystyrir adroddiad am y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig wedi'i diweddaru fel eitem ar wahân yn y dyfodol ac y bydd yn adlewyrchu cynnydd dangosol yn Setliad 24/25 o 3.1% ar y mwyaf.

6. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn fel y nodir yn Atodiad 8 ac argymell hon i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

7. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 9 ac argymell hon i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

8. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn er mwyn cael safbwyntiau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y byddant yn cyfarfod ar 02/02/23, 09/02/23 a 10/02/23.

Bydd y pwyllgorau hyn yn cael gwybodaeth am y cynigion ynghylch Taliadau a Ffioedd hefyd.

9. Nodi y caiff y penderfyniadau terfynol am Ofyniad Cyllideb 23/24 a lefel y cynnydd i'r Dreth Gyngor ar gyfer 23/24 eu gwneud gan y Cyngor Llawn ar 02/03/23.

Rhesymau dros y penderfyniad: Er mwyn gallu paratoi Cyllideb 2023/24.

Trosolwg a Chraffu: Ystyrir y Cynigion am y Gyllideb gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 02/02/23 a chan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol ar 09/02/23 a 10/02/23.

Blaenoriaethau Corfforaethol: Mae'r Gyllideb yn cynorthwyo pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022 -2027.

Goblygiadau ariannol: Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Pwerau Statudol: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Papurau Cefndirol:

- Local government revenue and capital settlement: provisional 2023 to 2024 | GOV.WALES / Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU
- Adroddiad i'r Cabinet ynghylch gosod sylfaen y Dreth Gyngor – 06/12/22

Atodiadau:

Atodiad 1 - Llythyr gan y Gweinidog am y Setliad Dros Dro
Atodiad 2 - Gwybodaeth am y Setliad i bob Cyngor
Atodiad 3 - Manylion ynghylch y Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb
Atodiad 4 - Pwysau ar Gostau yn y Gyllideb fesul CLO
Atodiad 5 - Crynodeb o'r Gofyniad ar gyfer y Gyllideb
Atodiad 6 - Symudiadau Cyllideb 22/23 i 23/24
Atodiad 7 - Risgiau i'r Gyllideb
Atodiad 8 - Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn
Atodiad 9 - Strategaeth Gyfalaf

Swyddog Arweiniol Corfforaethol Duncan Hall
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd: Duncan Hall a Justin Davies

Dyddiad: 13/01/23

ATODIAD 1

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/AIL/3705/22

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Gyfeillion

Rwyf yn cyhoeddi heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, fanylion y Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2023-24 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (awdurdodau). Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Fel y gwyddoch nid oedd yr arian a gyhoeddwyd yn natganiad hydref y Canghellor yn ddigonol i ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn yr heriau aruthrol a achoswyd gan chwyddiant dihafal. Er bod rhywfaint o arian ychwanegol i Gymru yn Natganiad yr Hydref – £1.2 biliwn dros ddwy flynedd – fe ddaeth bron i hanner hynny o benderfyniadau a gafodd eu gwneud ynglŷn â pholisi ardrethi annomestig yn Lloegr. Ni fydd hyn yn llenwi'r bylchau mawr yn setliad Cymru dros y cyfnod adolygu gwariant tair blynedd (2022-23 i 2024-25).

Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol yw blaenoriaethau'r Llywodraeth hon o hyd. Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwy'n amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2023-24 yn £5.5 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 7.9% yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Ni fydd yr un awdurdod yn derbyn cynnydd o lai na 6.5% o gynnydd.

Mae'r dyraniad dangosol o gyllid refeniw craidd ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 hefyd wedi cynyddu a bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer y grant cymorth refeniw yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer 2023-24. Mae effaith rhewi'r lluosydd yn parhau am yr ail flwyddyn, yn ogystal â'r rhyddhad ardrethi trosiannol (er ei fod ar gyfradd is yn 2024-25). Mae'r cyllid allanol cyfun ar gyfer 2024-25 yn £5.69 biliwn sy'n cyfateb i gynnydd o £169 miliwn. Ffigwr dangosol yw hwn ac mae'n ddibynnol ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm ardrethi annomestig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol a fydd yn deillio o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal.

O ganlyniad i benderfyniadau gwario a wnaed mewn perthynas ag addysg yn Lloegr, derbyniodd Cymru gyllid canlyniadol o £117 miliwn y flwyddyn yn Natganiad yr Hydref. Mae'r arian hwn yn cael ei ddarparu'n llawn i lywodraeth leol drwy gyfuniad o'r Setliad a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg. Felly bydd angen i'r cyllid a ddarperir drwy'r Setliad hwn dalu'r costau sy'n deillio o gytundeb cyflog 2023/24 ym mlwyddyn Setliad 2023-24. Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu'r holl gyllid sydd ar gael o flaen llaw a pheidio â chadw cyllid yn ôl ar gyfer cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn o'r dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer 2023/24. Felly, rhaid i awdurdodau ystyried y costau hyn wrth gynllunio eu cyllidebau.

Rwy'n gwybod bod llywodraeth leol wedi bod yn wynebu pwysau sylweddol ac wedi ceisio cydnabod effaith chwyddiant ar safonau byw y rhai sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Gobeithio bod y Setliad uwch hwn yn eich galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar eich cymunedau yn ogystal â chefnogi uchelgeisiau cenedlaethol a lleol ar gyfer y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r Setliad rydym yn parhau i ddarparu cyllid i helpu llywodraeth leol i hepgor ffioedd claddu plant. Mae'r ymrwymiad cyffredin hwn yn sicrhau dull teg a chyson ledled Cymru.

Yn unol â'n pwyslais ar weithredu yn erbyn effeithiau tlodi, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed, incwm isel, rhag unrhyw ostyngiad yn y cymorth a ddarperir o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rydym yn gweithredu er gwaetha'r diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi iddi ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor. Byddwn yn parhau i gynnal yn llawn unrhyw hawl i gymorth o dan ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023-24, ac rydym unwaith eto yn darparu £244 miliwn ar gyfer y cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Mae'r cyd-destun economaidd presennol, gan gynnwys chwyddiant uchel, yn rhoi pwysau sylweddol ar fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru. Mae'r pwysau hynny hefyd yn cael eu teimlo gan y gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un ohonom dibynnu arnynt, ac sydd eu hunain yn ddibynnol ar y refeniw a godwyd trwy drethi lleol. Er mwyn cefnogi trethdalwyr yn ystod y cyfnod hwn rwy'n darparu pecyn o gymorth ardrethi annomestig gwerth mwy na £460 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Rwy'n cadw at y dull gweithredu a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac yn rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24. Mae hyn eto yn sicrhau na fydd swm yr ardrethi y mae busnesau a threthdalwyr eraill yn eu talu yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

Rwyf hefyd yn cyflwyno rhyddhad trosiannol gwerth £113 miliwn, a ariennir yn llawn, ar gyfer pob trethdalwr y bydd cynnydd o dros £300 yn ei filiau yn dilyn yr ymarfer ailbrisio a gynhelir ledled y DU gyfan, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023.

Yn olaf, mae'r pecyn cymorth ardrethi annomestig hefyd yn darparu dros £140 miliwn o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru. Bydd trethdalwyr cymwys yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig o 75% drwy gydol 2023-24. Bydd cap o £110,000 ar y rhyddhad hwnnw fesul busnes ar gyfer yr holl weithgarwch a gynhelir ganddynt ledled Cymru. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r hyn a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

O ystyried y cynnydd yn y Setliad hwn, nid wyf yn bwriadu cynnwys terfyn isaf eleni ac rwyf wedi dyrannu'r holl gyllid sydd ar gael yn y Setliad hwn.

Eglurais y sefyllfa o safbwynt y cyllid cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru fel rhan o'm datganiad ar y Gyllideb ddydd Mawrth. Roedd y setliad a gawsom gan Lywodraeth y DU yn siomedig ac nid yw'n ddigonol i fodloni ein huchelgeisiau i fuddsoddi yn nyfodol Cymru, gyda'n cyllideb gyfalaf gyffredinol 8.1% yn is mewn termau real na'r flwyddyn bresennol.

Ar ôl inni adolygu ein cyllidebau cyfalaf, bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24 yn parhau fel y nodir yng nghyllideb derfynol 2022-23, sef £180 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £30 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Bydd hyn yn parhau ar gyfer 2024-25.

Hyd yn oed wrth i ni ateb yr heriau a berir gan chwyddiant, ac ymateb i anghenion dyngarol sy'n deillio o ryfeloedd, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr angen i sicrhau pwyslais ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur a chyfrannu at gynllun Cymru Sero Net rydym wedi'i ddatblygu gyda'n gilydd. Ar wahân i hynny rwy'n darparu £20 miliwn o gyfalaf ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'n blaenoriaeth ar y cyd sef datgarboneiddio. Nid wyf wedi ystyried neilltuo cyllid refeniw i gefnogi ymateb awdurdodau i'r newid yn yr hinsawdd gan gydnabod bod rhaid i'n holl benderfyniadau ystyried sut i leihau ein hallyriadau parhaus a rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r awdurdodau i wneud hynny ac i reoli eu cyllidebau.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a thablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad fesul awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer awdurdodau unigol, sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig wedi'u hail-ddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae cyhoeddi'r Setliad yng nghanol mis Rhagfyr wedi ein galluogi i dynnu ar ffigurau diweddaraf y sylfaen drethu ar gyfer 2023-24, sy'n golygu na ddylai fod unrhyw newid rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol o ganlyniad i ddiweddariadau i'r sylfaen drethu. Er na allaf warantu na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, oherwydd yr ansicrwydd ariannol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg na'r data sy'n sail i ddosbarthu'r Setliad hwn. Mae un newid wedi'i gynllunio ar gyfer y gyllideb derfynol y dylwn dynnu eich sylw ato, sef y bwriad i drosglwyddo cyllid ar gyfer y costau cyflogwr cynyddol sy'n gysylltiedig â phensiynau'r Awdurdod Tân ac Achub o grant i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn y setliad llywodraeth leol terfynol. Bydd eich swyddogion am sicrhau eu bod yn ystyried hyn gyda phob Awdurdod Tân ac Achub priodol yn ystod y trafodaethau arferol ar gyllid.

Mae'r Setliad hwn yn rhoi llwyfan sefydlog i chi ar gyfer cynllunio'ch cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a thu hwnt.

Rydw i a'm cydweithwyr wedi meithrin cysylltiadau agos â llywodraeth leol yn y cyfnod sy'n arwain at y Setliad hwn. Er bod hwn yn Setliad cymharol dda, sy'n adeiladu ar y gwell dyraniadau a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwy'n cydnabod bod y cyfraddau chwyddiant a brofwyd dros y misoedd diwethaf, a'r rhagolygon gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd lefelau chwyddiant sylweddol yn parhau, yn golygu y bydd angen i chi wneud penderfyniadau anodd o hyd wrth osod eich cyllidebau. Mae'n bwysig eich bod yn

meithrin cysylltiadau'n ystyrlon â'ch cymunedau lleol wrth ichi ystyried eich blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb pob awdurdod unigol yw pennu cyllidebau ac, yn ei thro, y Dreth Gyngor. Bydd angen ichi ystyried yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael i chi, yn ogystal â'r pwysau rydych yn ei wynebu, wrth bennu eich cyllidebau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Byddaf yn parhau i feithrin cysylltiadau agos â llywodraeth leol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol o 7 wythnos ar y Setliad ar gyfer 2023-24. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Iau, 2 Chwefror 2023** fan bellaf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Tim Evans: LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r Setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydyn ni'n gwahodd sylwadau ynghylch a ellid llunio neu ddiwygio'r Setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) pob ymatebwr gyda'r ymateb. Os nad ydych am gael eich adnabod fel awdur eich ymateb, sicrhewch eich bod yn datgan hynny yn glir yn eich ymateb.

Mae'n bosib y bydd copïau o'r ymatebion yn cael eu gosod yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, nodwch hynny'n glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried yn sgil ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad terfyn cyn i'r dyfarniad terfynol gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir awdurdodau o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol sydd wedi eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo hynny'n berthnasol. Dylid asesu effeithiau'r opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid ichi hefyd ystyried eich dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi eich cynlluniau ar gyfer 2022-23.

Yn gywir

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

ATODIAD 2

Gwybodaeth am y Setliad Dros Dro Iedled Cymru

Awdurdod Unedol	Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2023-24 £'000	Newid o 2022/23 (ar sail tebyg am debyg)	*Safle*
Sir Fynwy	122,490	9.3%	*1*
Caerdydd	592,891	9.0%	*2*
Bro Morgannwg	202,535	8.9%	*3*
Casnewydd	289,211	8.9%	*4*
Powys	228,388	8.7%	*5*
Sir Gaerfyrddin	338,017	8.5%	*6*
Wrecsam	224,621	8.4%	*7*
Sir y Fflint	251,747	8.4%	*8*
Ceredigion	129,050	8.2%	*9*
Sir Ddinbych	187,871	8.2%	*10*
Sir Benfro	212,415	7.9%	*11*
Ynys Môn	123,555	7.9%	*12*
Pen-y-bont ar Ogwr	249,895	7.7%	*13*
Abertawe	417,775	7.6%	*14*
Torfaen	172,223	7.5%	*15*
Conwy	198,413	7.3%	*16*
Castell-nedd Port Talbot	276,397	7.1%	*17*
Merthyr Tudful	118,497	7.0%	*18*
Gwynedd	227,843	7.0%	*19*
Caerffili	339,610	6.9%	*20*
Rhondda Cynon Taf	470,847	6.6%	*21*
Blaenau Gwent	139,597	6.5%	*22*
Cyfanswm yr awdurdodau unedol	**5,513,888**	**7.9%**	

Isaf	6.5%
Mwyaf	9.3%
Canolrif	7.9%
Cyfartaledd	7.9%

Cyllideb 2023/24: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
1. Pwysau o ran Costau sy'n gyffredin i'r Holl / Rhan Fwyaf o Wasanaethau			
Dyfarniadau Cyflog 22/23 yn erbyn Darpariaeth y Gyllideb 22/23 - adlinio'r Sylfaen		3,058	Sicrhau bod gan y gyllideb sylfaenol ddarpariaeth lawn ar gyfer y Dyfarniadau Cyflog 22/23 a gymeradwywyd
Amcangyfrif Darpariaeth Dyfarniad Cyflog 23/24 Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd		4,470	Y rhagdybiaeth ddiweddaraf yw dyfarniad cyflog gwastad o £1,600 fesul SCP i sicrhau bod yr SCP isaf £1 yn uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol disgwyliedig o £10.42. Mae hyn yn cyfateb i effaith gyfartalog o 6.3%, ond byddai hyn yn amrywio ar gyfer pob SCP o 7.9% i 1.5%.
Dyfarniad Cyflog Athrawon (gan gynnwys Soulbury) - Medi 22 (effaith blwyddyn lawn)		445	Effaith blwyddyn lawn Dyfarniad Cyflog 5% Medi 2022 (h.y. 5/12s sy'n weddill)
Dyfarniad Cyflog Athrawon (gan gynnwys Soulbury) - Medi 23 (effaith rhan o flwyddyn)		1,334	Rhagdybir bod Dyfarniad Cyflog Athrawon Medi 2023 yn 3.5% yn unol ag adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau
Gwrthdroi'r cynnydd 1.25% yn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr		(718)	Newid Polisi Llywodraeth y DU
Chwyddiant Ynni		1,442	Effaith blwyddyn lawn o 01/10/22 i 30/09/23 Prisiau contract ynni ar y lefelau defnydd presennol. Ar Drydan - mae cynnydd fesul kwh / taliadau sefydlog yn cyfateb i gyfartaledd o tua 77%. Ar Nwy - mae cynnydd fesul kwh / taliadau sefydlog yn cyfateb i gyfartaledd o tua 195%. Gyda'r holl agweddau ynni wedi'u cyfuno, cyfanswm y cynnydd yw tua £1.4m, gan fynd â'r bil Ynni o tua £2.4mi tua £3.9m – cynnydd cyffredinol o tua 60%.
Ailbrisio Ardreth Annomestig Genedlaethol Ebrill 2023		(43)	Effaith net rhestru Prisiad 2023 newydd ar ôl darparu ar gyfer ar gyfer Rhyddhad Trosiannol Llywodraeth Cymru
IS-GYFANSWM		**9,988**	
2. Eitemau Corfforaethol			
Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru		519	Cynnydd arfaethedig yn yr Ardoll Tân yn seiliedig ar Opsiwn Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru o 13%. Unwaith y caiff ei ddosrannu i Awdurdodau Lleol Cyfansoddol ar sail poblogaeth daw hyn yn 12.4% ar gyfer Ceredigion. Mae hyn yn amodol ar benderfyniad terfynol ar 06/02/23, ond mewn egwyddor mae hwn wedi'i dderbyn gan Aelodau'r Awdurdod Tân. Mae hyn yn cyfateb i 1.3% mewn termau cynnydd Treth y Cyngor pur
Lwfansau Aelodau		47	Cynnydd arfaethedig yr IRP o 4.76%, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad
Ffioedd Archwilio Allanol		30	Cynnydd arfaethedig o tua 14% ar ran fawr o gostau ffioedd archwilio allanol yn gysylltiedig â chyfuniad o gostau byw a safonau archwilio diwygiedig sy'n gofyn am fwy o staff cymwys.

Cyllideb 2023/24: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor		65	Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (Swm yn amrywio ar gyfer lefelau Treth y Cyngor gwahanol)
Darpariaeth ar gyfer risgiau yn ymwneud â chwyddiant o ran ynni a thâl		400	
Ariannu Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Benthyca â Chymorth Llywodraeth Cymru		200	
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor		460	Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (Swm yn amrywio ar gyfer lefelau Treth y Cyngor gwahanol)
IS-GYFANSWM		**1,721**	

3. Pwysau o ran Costau yn ymwneud â holl Wasanaethau Gydol Oed Pyrth

Buddsoddiad Arian Sefydlu Blwyddyn 2 model staffio newydd Gydol Oed a Llesiant	Yr Holl Byrth	224	Ffigwr yn unol â chostiadau Strwythur Gydol Oed a Llesiant. Buddsoddiad net o £1.1m ar draws rhaniad y 3 Pyrth dros 2 flynedd (£857k wedi ei ariannu yn 22/23+ £224k nawr yn 23/24). Er nad yw'r strwythur yn llawn eto oherwydd heriau recriwtio, bydd cyfuniad o ddefnydd parhaus o staff asiantaeth a/neu recriwtio staff parhaol llwyddiannus yn y pen draw yn golygu y bydd angen cyllideb Blwyddyn 2.
Darpariaeth ar gyfer chwyddiant costau ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir yn Allanol yn cwmpasu £9.90 i £10.90 Cynnydd mewn Cyflog Byw Gwirioneddol a Chwyddiant cyffredinol heb fod yn Staffio	Porth Gofal / Porth Cynnal	2,542	Ffactorau chwyddiant a gynigir o 8.16% Gofal yn y Cartref/Byw â Chymorth, 8.37% ar gyfer Gofal Preswyl a 9.08% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.
Chwyddiant Cludiant Uned Cyfeirio Disgyblion	Porth Cymorth Cynnar	61	Yn adlewyrchu effaith y prisiau adnewyddu contract diweddaraf gwirioneddol
Tendr ar gyfer contract Gofal Cartref newydd a chynnig ar gyfer cynnydd mewn cyfraddau safonol fesul awr i gyd-fynd yn agosach â Chyfradd Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig	Porth Gofal	302	Mae tanwariant yn erbyn cyllideb Gofal Cartref yn 22/23, felly pe bai'r contract newydd yn mynd yn ei flaen gan ddefnyddio cyfraddau amcangyfrifedig Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig fel y llinell sylfaen allweddol, yna £302k yw'r effaith ariannol net amcangyfrifedig. Mae hyn ar ôl ystyried y tanwariant presennol a lefel y pecynnau sy'n cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan y tîm Galluogi mewnol.
Effaith cost contract craidd newydd ar gyfer Darpariaeth Gofal Cartref ym Maes y Môr, Aberystwyth	Porth Gofal	132	Effaith prisiau contract craidd newydd ar gyfer oriau gofal a aseswyd yn dilyn cyflwyno hysbysiad gan ddeiliad blaenorol y contract. Mae risg ychwanegol arall o ran yswiriant 24/7 y bydd angen ei adolygu.
Plant sy'n Derbyn Gofal - costau Asiantaeth Faethu Annibynnol	Porth Cynnal	352	Mae'r duedd bresennol o fewn Plant sy'n Derbyn Gofal yn gynnydd cyson ac ar ôl Ch2 mae 5 Lleoliad IFA ychwanegol wedi dod drwodd (£200k). Mae'r costau uwch yn cynrychioli'r pwysau presennol yn ystod y flwyddyn a nodwyd yn Ch2 ynghyd â'r cynnydd y gwyddys amdano bellach yn nifer yr IFAS a lwfans ar gyfer codiadau chwyddiant contract.

Cyllideb 2023/24: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Plant sy'n Derbyn Gofal - Cynnydd ar Lwfansau Llywodraeth Cymru	Porth Cynnal	59	Cynnydd amcangyfrifedig o 4% yn lwfansau gosod Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae lwfansau amrywiol yn daladwy mewn perthynas â 138 o blant gan gynnwys Perthynas (37), Gwarchodaeth Arbennig (32), Mabwysiadu (16) i Lwfansau Lletya (51). Cyfanswm y gwariant yn y maes hwn yw tua £1.5my flwyddyn
Anableddau Dysgu - Lleoliadau yn y Sector Annibynnol	Porth Cynnal	962	Bu angen codiad i lefelau hanesyddol iawn o ffioedd er mwyn cadw'r ddarpariaeth yn y sir ym Mhlas Gwyn (£238k) ac yn ogystal cafwyd 6 lleoliad newydd ar gost gros o £724k (cost lleoliad cyfartalog £724k). 120k). Cyfanswm y gyllideb gros gyffredinol yw £6.7m gyda thua 62 o leoliadau ar gost lleoliad cyfartalog o £108k (cost lleoliad uchaf o £212k).
Anableddau Dysgu - Lleoliadau Byw â Chymorth	Porth Cynnal	558	Mae hyn yn adlewyrchu cyfanswm cost blwyddyn lawn yn seiliedig ar y niferoedd presennol (a'u horiau cymorth cysylltiedig) mewn lleoliadau Byw â Chymorth. Bu colled hefyd o £214k o'r Grant Cymorth Tai. Cyfanswm y Gyllideb Gros sydd ei hangen yw £3.6m, a'r elfennau mwyaf yw £3.1m i gefnogi 45 o Ddefnyddwyr Gwasanaethau yn y sir ar draws 18 eiddo ar gost gyfartalog o £69k y flwyddyn fesul Defnyddiwr Gwasanaeth a 4 Defnyddiwr Gwasanaethau mewn lleoliadau Annibynnol Arall (cost gyfartalog £83kpa fesul person). Mae dull gweithredu System Brynu Ddeinamig newydd yn rhan o'r broses weithredu ac er y gallai hyn ddod â chyfleoedd effeithlonrwydd, mae ganddo hefyd risg ariannol ochr yn ochr.
Pobl Hŷn - Lleoliadau yn y Sector Annibynnol	Porth Cynnal	595	Mae hyn yn adlewyrchu cyfanswm cost blwyddyn lawn yn seiliedig ar lefel bresennol y lleoliadau. Cyfanswm y Gyllideb Gros ofynnol yw £12.15m sy'n adlewyrchu tua 288 o leoliadau, gyda chost lleoliad cyfartalog o £42k y flwyddyn.
Plant Ceiswyr Lloches ar eu Pennau eu Hunain	Porth Cynnal	92	Mae hyn yn adlewyrchu cost x7 o Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pennau eu Hunain gyda'r Cyngor ar hyn o bryd dan y Gwasanaeth Trosglwyddo Cenedlaethol. Dyma'r diffyg wrth gymharu grant y Swyddfa Gartref o £143 y noson (Plant sy'n Derbyn Gofal) a £270 yr wythnos (Gadael Gofal) â chostau lleoliadau cyfredol gwirioneddol. Mae lobïo'n cael ei wneud drwy CLlLC gan fod hwn yn fater sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.
Iechyd Meddwl - Tai â Chymorth y Tu Allan i'r Sir a Lleoliadau yn y Sector Annibynnol	Porth Cynnal	260	Mae'r gyllideb sydd ei hangen yn seiliedig ar leoliadau hysbys cyfredol a lleoliadau sy'n mynd rhagddynt. Cyfanswm y Gyllideb Gros sydd ei angen yw £4m sy'n adlewyrchu tua 55 o leoliadau gyda chost lleoliad cyfartalog o £73k y flwyddyn.

Cyllideb 2023/24: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Lleoliadiadau y Tu Allan i'r Sir	Grŵp Arweiniol / Porth Gofal	2,183	Ar hyn o bryd mae 13 o leoliadau Plant y tu allan i'r sir - 2 ohonynt yn rhai hirdymor, gall hyd at 5 fod yn addas ar gyfer darpariaeth sirol a dylai 6 naill ai neu o fewn amserlen resymol ddod yn addas ar gyfer trefniadau amgen (e.e. Maethu, Byw â Chymorth, Tai Llety â Chymorth). Y gost gyfredol gyfartalog ar gyfer lleoliad plentyn yw £296k. Mae yna hefyd 13 o leoliadau coleg y tu allan i'r sir ar gost gyfartalog o £102k. Rhagamcanir y bydd cyfanswm costau lleoliadau plant a choleg y tu allan i'r sir yn £5.286m os nad oes newid yn y dull gweithredu. Ar ôl ystyried newidiadau hysbys a rhagamcanol yn y dull o weithredu, gan gynnwys costau gweithredu rhan o'r flwyddyn ar gyfer 3 cyfadran newydd yn y sir, mae'r gost hon yn gostwng i gost o £4.875m ar gyfer 23/24. Mae hyn yn cynnwys costau lleoliadau rhagamcanol o £4.25m a chostau rhedeg rhan o'r flwyddyn sirol o £625k. Dylai effaith blwyddyn gyfan 24/25 leihau costau lleoliadau ymhellach, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan effaith blwyddyn lawn costau rhedeg cyfleusterau yn y sir, ond yn gyffredinol rhagwelir gostyngiad net unwaith y bydd y cyfleusterau mewnol yn gwbl weithredol. Adlewyrchir y gostyngiad hwn yng nghynlluniau arbedion y blynyddoedd i ddod
IS-GYFANSWM		**8,322**	

4. Pwysau o ran Costau sy'n Berthnasol i Wasanaethau Eraill

Contractau Meddalwedd - Cymorth a Chynnal a Chadw Blynyddol / Trwyddedau	Cyswllt Cwsmeriaid	80	Cynnydd yng nghost y Drwydded Meddalwedd o ganlyniad i ddarpariaethau chwyddiant cytundebol - yn gyffredinol yn gysylltiedig â RPI neu CPI, gyda chyfanswm y gyllideb meddalwedd tua £800k (Cydran sengl fwyaf yw Microsoft Office 365 sy'n gysylltiedig â mynegai ac yn £60k o'r cynnydd).
Chwyddiant Cytundeb PFI Penweddig	Cyllid a Chaffael	152	Mae Cytundeb PFI Penweddig sy'n rhedeg tan fis Rhagfyr 2030 yn cynnwys darpariaeth chwyddiant RPIX. Ffactorau chwyddiant diweddar fu: 21/22 +1.67%, 22/23 +9.09%, 23/24 rhagdybiedig ar +10% ar y Gost Unedol o £1.5m. Er bod cost sylweddol i hyn, mae'n gytundebol a bydd y gweithredwr PFI yn ymarferol yn wynebu chwyddiant sylweddol ar ddeunyddiau, cyflenwadau a chyflogau.
Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol	Priffyrdd ac Amgylcheddol	561	Impact effaith blwyddyn lawn o brisiau tendro hysbys y cytunwyd arnynt eisoes. Risg pellach wrth i lwybrau eraill ddod i'r amlwg i'w hadnewyddu.
Llwybrau Trafnidiaeth Bws Cyhoeddus	Priffyrdd ac Amgylcheddol	215	Yn ymwneud yn bennaf ag impact effaith blwyddyn lawn o brisiau tendro hysbys y cytunwyd arnynt eisoes. Dim ond ar sail 6 mis + 6 mis yr ymestynnwyd rhai llwybrau penodol. O'r llwybrau dim ond 1 (y 526 ar £104k am 12 mis) sydd heb ddim agwedd dysgwr statudol arno.

Cyllideb 2023/24: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Contractau Gwaredu Gwastraff	Priffyrdd ac Amgylcheddol	155	Nid yw'r cynnydd a ragwelir ond yn ymwneud â darpariaethau chwyddiant o fewn contractau Safleoedd Gwastraff Cartrefi, sy'n gysylltiedig â RPIX. Mewn mannau eraill mae codiadau cytundebol ar gyfer contractau Gwastraff eraill yn cael eu gwrthbwyso gan ganlyniad cadarnhaol o'r contract Gwaredu Gwastraff Ailgylchu newydd a ddylai gynhyrchu incwm.
Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth	Priffyrdd ac Amgylcheddol	168	Prisiau uwch / chwyddiant yn cael eu gweld mewn perthynas â Thanwydd Fflyd (£126k gyda gostyngiad o 10% ym mhrisiau tanwydd wedi'i ragdybio o tua 600,000 litr) ynghyd â chwyddiant Cyflenwyr i'w weld ar Ddeunyddiau Allweddol (Teiars a Sbarion ac ati - £42k)
Etifeddiaeth Athrawon Costau Ymddeol yn Gynnar - Effaith Chwyddiant	Pobl a Threfniadaeth	46	Effaith chwyddiant o 8.7% o fis Ebrill 2023
Parhad o adnodd Argyfyngau Sifil Posibl / Ar ôl Brexit	Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	24	Ariannwyd gan grant yn flaenorol - yn adlewyrchu effaith 6 mis (yn flaenorol 50% 1af wedi'i ariannu ym mhroses pennu cyllideb 22/23)
Cinio Ysgol Am Ddim (Uwchradd) - Niferoedd uwch	Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig	138	Cynnydd o 84 (793-709) @ £1,644 = £138k
Taliadau CLG Ysgolion - chwyddiant	Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig	144	Bydd costau gan Wasanaethau Mewnol yn cynyddu i adlewyrchu chwyddiant Cyflogau / Arall
Arlwyo - Chwyddiant Costau Bwyd mewn Ysgolion Uwchradd / Ysgolion Pob oed	Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig	62	Yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant bwyd o 12.4%
Chwyddiant Contractau Cludiant anghenion dysgu ychwanegol	Ysgolion a Diwylliant	241	Yn adlewyrchu effaith y prisiau adnewyddu contract diweddaraf gwirioneddol
Chwyddiant Cludiant Uned Iaith	Ysgolion a Diwylliant	20	Yn adlewyrchu effaith y prisiau adnewyddu contract diweddaraf gwirioneddol
Adennill Rhwng Awdurdodau ar gyfer darpariaeth AAA	Ysgolion a Diwylliant	175	Effaith blwyddyn lawn o 7.8 Cynorthwyydd Addysgu wedi gorffen Awst 22 (gan gynnwys 2 mewn unedau) - £120k + 9.7 Cynorthwyydd Dysgu yn gorffen Awst 23 (disgyblion Bl 11/Bl 13) - £105k Llai o wariant o £50k. Mae costau adennill rhwng Awdurdodau yn cynnwys costau Uned, costau hyd at 31/08 a ffi rheoli o 5%.
Arlwyo - Chwyddiant Costau Bwyd mewn Ysgolion Cynradd a Chartrefi Gofal	Ysgolion a Diwylliant	65	Yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant bwyd o 12.4%
IS-GYFANSWM		**2,246**	
CYFANSWM Y PWYSAU O RAN COSTAU		**22,277**	
		-	

Cyllideb 2023/24: Y pwysau o ran costau a amcangyfrifir fesul gwasanaeth

	Dyfarniadau cyflog y gweithwyr yn 2022/23 o gymharu â'r hyn a ddarparwyd yn y gyllideb ar gyfer 22/23 - Adlinio'r Gyllideb Sylfaenol £'000	Y ddarpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog y gweithwyr yn 2023/24 £'000	Peidio â chyflwyno'r cynnydd o 1.25% yng nghyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr £'000	Costau gweithwyr (Eraill) £'000	Chwyddiant ynni £'000	Chwyddiant sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth £'000	Ailbrisio Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Ebrill 2023 £'000	Darpariaeth ar gyfer chwyddiant gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol (gan gynnwys y cyflog byw gwirioneddol a chyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwyr) £'000	Arian Sefydlu - Strwythur Model Gweithredu newydd Gydol Oes a Llesiant (Blwyddyn 2 o 2) £'000	Arall (sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol) £'000	Chwyddiant sy'n gysylltiedig â chontractau eraill £'000	Colli incwm / cyllid grant £'000	Eitemau corfforaethol £'000	CYFANSWM £'000
Cyswllt Cwsmeriaid	206	214	(30)								80			**470**
Gwasanaethau Democrataidd	143	224	(27)										47	**387**
Economi ac Adfywio	159	284	(36)		274		(27)							**654**
Cyllid a Chaffael	159	193	(25)								152		660	**1,139**
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	425	561	(51)		154	944	16				155			**2,204**
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	29	41	(7)										30	**93**
Pobl a Threfniadaeth	64	86	(15)	46										**181**
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	30	134	(30)									24		**158**
Porth Cymorth Cynnar	272	419	(37)		99	61	5		59					**878**
Porth Cynnal	157	253	(36)					2,106	9	2,605	59	214		**5,367**
Porth Gofal	496	804	(60)		186		1	436	156	434				**2,453**
Ysgolion a Diwylliant	1,752	3,022	(361)		729	261	(38)				271	313		**5,949**
Grŵp Arweiniol	(834)	14	(3)							2,183			400	**1,760**
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd													584	**584**
CYFANSWM	**3,058**	**6,249**	**(718)**	**46**	**1,442**	**1,266**	**(43)**	**2,542**	**224**	**5,222**	**717**	**551**	**1,721**	**22,277**

Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb

Yn seiliedig ar Gynnydd Treth y Cyngor o 7.3%				Senario Treth y Cyngor 7.3% £'000
Adnoddau sydd ar Gael 2023/24				
Cyllid Allanol Cyfun (Grant Cynnal Refeniw + Ardreth Annome *2021/22: £119,421*				**129,050**
Incwm Treth y Cyngor				
Sylfaen Treth y Cyngor (yn unol ag adroddiad Cabinet 07/12/21)			32,346.55	
Treth y Cyngor 2021/22		£1,447.90		
Treth y Cyngor 2022/23 yn cynyddu	**7.30%**	**£1,553.60**		**50,253**
Sylfaen Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor (yn unol ag adroddiad Cabinet 06/12/22)			421.44	
Treth y Cyngor 2021/22		£1,447.90		
Treth y Cyngor 2022/23 yn cynyddu	**7.30%**	**£1,553.60**		**655**
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar Gael ar gyfer Gofyniad y Gyllideb (yn y Setliad Dros Dro)				**179,958**
Ychwanegu cynnig Llywodraeth Cymru i drosglwyddo Grant Pensiynau Awdurdodau Tân i'r Setliad Terfy				143
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar Gael ar gyfer Gofyniad y Gyllideb (disgwylir yn y Setliad Terfynol)				**180,101**
Cyllideb Sylfaenol wedi'i Haddasu a ddupwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol				**165,843**
Addasiadau Corfforaethol a Chyfrifoldebau Newydd:				
Dyraniadau Penodol				
- Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru				519
- Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor				65
- Ariannu Rhaglen Gyfalaf				200
- Cynllun Cymorth Gostyngiadau Treth y Cyngor				460
- Lwfansau Aelodau				47
- Ffioedd Archwilio Allanol				30
- Darpariaeth ar gyfer risgiau yn ymwneud â chwyddiant o ran ynni a thâl				400
- Gwrthdroi Rhagdybiaethau Gwarged Treth y Cyngor Ch1 bellach wedi'u cynnwys yn y Sylfaen Dreth				700
				2,421
Trosglwyddiadau i mewn (Wedi'u cynnig ar gyfer y Setliad Terfynol):				
- Grant Pensiynau Awdurdod Tân i Gyllideb yr Ardoll Tân				143
				143
Is-gyfanswm				**2,564**
Mwy o bwysau o ran costau ar Wasanaethau				
- Diffyg Dyfarniadau cyflog 2022/23 yn erbyn Darpariaeth gyfredol y Gyllideb Sylfaenol				3,058
- Cost Dyfarniadau cyflog 2023/24				6,249
- Costau Gweithwyr Eraill				270
- Gwrthdroad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25%				(718)
- Yn ymwneud â Chwyddiant Ynni				1,442
- Chwyddiant Cysylltiedig â Thrafnidiaeth				1,266
- Effaith ailbrisio Ebrill 2023 Ardreth Annomestig Genedlaethol				(43)
- Chwyddiant cysylltiedig â Chontractau Eraill				3,107
- Trosglwyddiad / Taliadau 3ydd Parti / Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill				5,374
- Colli incwm / Cyllid grant				551
				20,556
Gostyngiadau Costau / Cynigion Arbedion				
- Gwneud pethau'n wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu				(3,075)
- Cyfyngu ar y cynnydd i'w weithredu i Ysgolion Dirprwyedig i 5.8%				(2,065)
- Dileu'r Cyfraniad at gronfa wrth gefn Hybu'r Economi				(2,440)
- Dileu cyllideb sylfaenol Gorfforaethol COVID				(500)
- Gostyngiad yng nghyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed (o 15.8% i 14.6%)				(782)
				(8,862)
Gofyniad y Gyllideb Reoladwy a'r Gyllideb Net				**180,101**

Symudiadau'r Gyllideb - Cyllideb 2022/23 i Gyllideb Ddrafft 2023/24

	2022/23 Cyllideb Reoladwy Wreiddiol a Gymeradwywyd £'000	Trosglwyddiadau / Symudiadau'r Gyllideb yn ystod y Flwyddyn hyd yma £'000	Ailddatgan Arian £1.0m Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i ostwng 22/23 Treth y Cyngor i 2.5% (Ch1) £'000	2022/23 Cyllideb Reoladwy Wedi'i diweddaru (yn Ch3) £'000	Arian £1.0m Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i ostwng 22/23 Treth y Cyngor i 2.5% (Sylfaen drethu) £'000	2022/23 Gofyniad Diweddaredig y Gyllideb Sylfaenol ar gyfer 2023/24 £'000	Ychwanegu Grant i'w Drosglwyddo i'r Setliad Terfynol i'w basbortio £'000	Ychwanegu Pwysau o ran Costau £'000	Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu £'000	Gostyngiad yng Nghyfradd Cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed £'000	Cyfyngu ar y cynnydd yng nghyllidebau Ysgolion Dirprwyedig i tua 5.8% £'000	Gostyngiadau yn y Gyllideb Gorfforaethol: Cronfa wrth gefn Hybu'r Economi / COVID Corfforaethol £'000	2023/24 Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft £'000	Newid o gymharu â Chyllideb Ddiweddaraf 2022/23 %
Cyswllt Cwsmeriaid	**6,155**	(5)		**6,150**		**6,150**		470	(140)	(49)			**6,431**	4.6%
Gwasanaethau Democrataidd	**4,391**	237		**4,628**		**4,628**		387		(38)			**4,977**	7.5%
Economi ac Adfywio	**3,688**	(51)		**3,637**		**3,637**		654	(250)	(57)			**3,984**	9.5%
Cyllid a Chaffael	**19,062**	38	(300)	**18,800**		**18,800**		1,139	(1,000)	(39)			**18,900**	0.5%
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**18,241**	(163)		**18,078**		**18,078**		2,204	(760)	(91)			**19,431**	7.5%
Cyfreithiol a Llywodraethu	**1,569**	(3)		**1,566**		**1,566**		93		(10)			**1,649**	5.3%
Pobl a Threfniadaeth	**2,165**	(4)		**2,161**		**2,161**		181		(21)			**2,321**	7.4%
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	**2,355**	(15)		**2,340**		**2,340**		158		(30)			**2,468**	5.5%
Porth Cymorth Cynnar	**4,401**	(46)		**4,355**		**4,355**		878		(73)			**5,160**	18.5%
Porth Cynnal	**28,648**	(46)		**28,602**		**28,602**		5,367	(50)	(49)			**33,870**	18.4%
Porth Gofal	**13,617**	(14)		**13,603**		**13,603**		2,778		(125)			**16,256**	19.5%
Ysgolion a Diwylliant	**50,965**	(78)		**50,887**		**50,887**		5,949	-	(195)	(2,065)		**54,576**	7.2%
Grŵp Arweiniol	**6,831**	150		**6,981**		**6,981**		1,435	(875)	(5)		(2,940)	**4,596**	-34.2%
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chror	**3,755**	-	300	**4,055**	700	**4,755**	143	584					**5,482**	35.2%
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	**165,843**	**-**	**-**	**165,843**	**700**	**166,543**	**143**	**22,277**	**(3,075)**	**(782)**	**(2,065)**	**(2,940)**	**180,101**	8.6%
	-			-				-					-	

Risgiau'r Gyllideb

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar gyfer y gyllideb ynghyd â'r sylwadau priodol, a'r rheolaethau a weithredir i leihau'r risg:

1. **Newidiadau i lefel y Cyllid Allanol Cyfun**
   Mae swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig a gaiff eu hailddosbarthu bellach yn darparu tua 72% o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw net y Gronfa Gyffredinol. Gall newidiadau i'r modd y caiff grantiau eu dosbarthu gael effaith fawr ar gyllid y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gallu cyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth yn uniongyrchol a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio dylanwadu ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud.

   Gyda'r rhagolygon economaidd ar hyn o bryd a dyraniadau dangosol ar lefel Cymru Gyfan ar gyfer y flwyddyn ganlynol 2024/25 o 3.1%, mae risg sylweddol y bydd hwn yn doriad mewn termau real. Mae angen i'r Cyngor gadw hyn mewn cof wrth ystyried ei flaenoriaethau gwario, gyda golwg ar yr angen i liniaru effaith y dyfodol ar y gyllideb trwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sydd wedi'i diweddaru.

   Hefyd, mae elfen o risg ariannol bob amser yn gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau arbedion a gaiff ei fonitro'n rheolaidd. Po uchaf yw lefel targedau'r Arbedion, yr uchaf yw'r risg ac eithrio lle maent wedi'u cyflawni ymlaen llaw.

2. **Newidiadau annisgwyl cyffredinol mewn gwariant a/neu incwm yn ystod y flwyddyn**
   Un rheswm pam y mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd yw cynnig rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn newidiadau annisgwyl. Mae system fisol reolaidd ar waith i fonitro'r gyllideb, gydag adroddiadau chwarterol ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ynghyd ag adrodd am eithriadau rhwng y cyfnodau hynny. Mae cynnal Cronfa Wrth Gefn Gorfforaethol fechan hefyd yn cynorthwyo gyda lefel benodol o liniaru risg yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gyda Dyfarniadau Cyflog Staff Cyffredinol yn anodd eu rhagweld a lefelau chwyddiant yn dal yn uchel.

   Mae'r Cyngor yn yswirio yn erbyn y prif risgiau hysbys megis difrod tân, atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus.

3. **Newidiadau o ran incwm grant penodol**
   Mae'r Cyngor yn cael symiau mawr bob blwyddyn ar ffurf grantiau penodol. Pe bai rheolau'r Llywodraeth yn newid neu pe baem drwy amryfusedd yn methu â chydymffurfio ag amodau grantiau, mae risg bosib y gallem golli incwm grant sylweddol. Mae archwilwyr allanol y Cyngor yn adolygu'n gyson y ffordd y mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau ac mae gwelliannau

gweithdrefnol yn cael eu rhoi ar waith lle bo angen i sicrhau nad ydym yn colli dim incwm grant.

Hefyd mae risg bosibl pe bai grantiau refeniw penodol Llywodraeth Cymru yn dod i ben, ond yn aml mae disgwyliad bod angen i'r gwasanaethau a ariennir drwy grantiau o'r fath gael eu cynnal ar yr un lefel. Lle bynnag y bo modd, dylid paratoi strategaethau ymadael i ymdrin â'r canlyniadau pan fydd cyllid grant yn dod i ben.

4. Twyll (gan gynnwys Seiberddiogelwch)

Gallai twyll mawr achosi colled ariannol sylweddol i'r Cyngor yn ogystal â gwanhau hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cynnal system o reoliadau ariannol a rheolau sefydlog i reoli'r risg hon ochr yn ochr â pharhad busnes a threfniadau cynllunio ar gyfer argyfwng sifil posibl. Mae Gweithgor gweithredol o Swyddogion sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Seiberddiogelwch a chydnerthedd busnes cysylltiedig. Bydd adain Archwilio Mewnol y Cyngor, fel rhan o'i chylch gorchwyl, yn ymchwilio i risgiau Twyll posibl, yn cynghori ar arferion gorau, ac yn sicrhau bod systemau rheoli mewnol digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn.

5. Ansolfedd Partïon i Gontractau

Gallai'r Cyngor ddioddef colledion yn sgil ansolfedd partneriaid pwysig neu gyflenwyr masnachol. Mae hon yn risg benodol mewn perthynas â thrafodiadau buddsoddi. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisïau Rheoli'r Trysorlys i ledaenu a lleihau'r risgiau yn y maes hwn. Mae partneriaid masnachol a chontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor yn destun asesiadau ariannol ac asesiadau eraill, a gall maint y contractau sy'n cael eu dyfarnu gael eu cyfyngu ar ôl ystyried canlyniad yr asesiadau.

6. Y Gronfa Bensiwn

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Dyfed. Gweinyddir y gronfa gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynllun buddion wedi'i ddiffinio yw'r cynllun pensiwn i weithwyr, gan gynnwys Aelodau'r Cyngor (ond heb gynnwys athrawon), sy'n golygu mai'r cyflogwr yn unig sy'n ysgwyddo'r risg mewn perthynas ag adenillion buddsoddi a newidiadau demograffig. Ar hyn o bryd, yn seiliedig ar brisiad Tair Blynedd Mawrth 2022, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gyffredinol o Warged (h.y. aseswyd yn actiwaraidd bod rhwymedigaethau'r presennol a'r dyfodol wedi'u gor-gyllido o fwy na 100%). Mae'r Cyngor yn gallu cynllunio ar gyfer senarios Gwarged neu Ddiffyg i'w gwasgaru dros gyfnod o sawl blwyddyn er mwyn lleihau unrhyw effaith uniongyrchol ar y gyllideb.

7. Cyfraddau Llog

Mae gan y Cyngor fenthyca hirdymor sylweddol ochr yn ochr â buddsoddiadau. Gall newidiadau i'r cyfraddau llog gael effaith sylweddol ar

incwm llog ac ar gost benthyciadau newydd sydd eu hangen i gefnogi gwariant cyfalaf newydd.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog a'u heffaith fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb. Yn yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd gyda chyfraddau llog yn codi o'r isafbwyntiau hanesyddol blaenorol, mae cyfleoedd gwell ar gyfer lefelau uwch o incwm buddsoddi, ond i'r gwrthwyneb mae costau benthyca hefyd yn uwch. Gweithredwyd strategaeth gulhau fewnol ers blynyddoedd lawer drwy gadw benthyca allanol i lawr drwy ddefnyddio arian parod sy'n cael ei ddal ar gyfrif (sydd mewn gwirionedd yn cynrychioli'r eitemau sydd â chefnogaeth arian parod wrth gefn ar y fantolen megis cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi).

8. Chwyddiant

a) Cyflog

Costau gweithwyr yw elfen fwyaf y gyllideb. Bydd cynnydd mawr mewn cyfraddau cyflogau yn cael effaith niweidiol ar gyllideb y Cyngor. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, caiff cyflogau eu negodi ar raddfa genedlaethol naill ar lefel y DU (Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercol) neu ar lefel Llywodraeth Cymru (Athrawon) ac nid oes gan y Cyngor ddim rheolaeth na rhan uniongyrchol yn y trafodaethau sy'n digwydd. Gyda chwyddiant yn parhau i fod yn uchel, roedd y Dyfarniad Cyflog 22/23 ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor yn eitem gost sylweddol ac mae risg yn parhau y bydd Dyfarniadau Cyflog uchel hefyd i'w gweld yn 23/24 cyn i chwyddiant a'r argyfwng Costau Byw ddechrau lleihau yn y pen draw. Drwy roi'r cytundeb statws sengl ar waith a thrwy weithredu gwerthusiad systematig o'r graddio, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal strwythur teg ond fforddiadwy o ran cyflogau.

b) Nad yw'n ymwneud â chyflogau

Rydym bellach yn dechrau cyfnod o chwyddiant uwch na'r cyfartaledd a lefelau nas gwelwyd ers cyn 2008. Mae gan Fanc Lloegr gyfrifoldeb i gadw chwyddiant ar y trywydd iawn ar tua 2%, fodd bynnag mae chwyddiant CPI wedi codi i dros 11% cyn dechrau disgyn yn ôl yn araf iawn. Mae hyn yn rhannol oherwydd contractau sydd eisoes yn bodoli gyda Chyflenwyr sy'n cynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a hefyd prisio contractau newydd (refeniw a chyfalaf). Mae hon felly yn risg Cyllideb sydd bellach yn cael ei gweld yn ymarferol yn barod ac sydd heb gael ei gweld i'r un graddau ers sawl degawd.

10. Effeithiau ar ôl COVID 19

Mae'r 2 flynedd ddiwethaf wedi bod yn ddigynsail i'r Cyngor yn ariannol ac yn weithredol oherwydd pandemig COVID19. Er bod y risg ar raddfa fawr a fodolai wedi chwalu i raddau helaeth, mae effeithiau ar ôl COVID yn dal i gael eu gweld mewn sawl man. Mae hyn yn amrywio o heriau Recriwtio a Chadw mewn sawl gwasanaeth i bethau ymarferol gweithredol lle, er enghraifft, mae brigiadau o achosion COVID yn dal i gael eu gweld mewn

Cartrefi Gofal, mae angen lefelau uwch na'r arfer o Athrawon Cyflenwi mewn Ysgolion ac nid yw'r defnydd o Ganolfannau Hamdden wedi dychwelyd i'r lefelau cyn COVID eto.

11. Ffosffadau

Yn dilyn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi tystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig afonol Afon Teifi a chyhoeddi datganiad sefyllfa / canllawiau Cynllunio dros dro ym mis Mai 2021. Mae effaith hyn yn cwmpasu 45% o dir Ceredigion ac mae hyn yn mynd i greu problemau sylweddol wrth ddwyn Datblygiadau yn eu blaenau yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt hyd nes y bydd y mater wedi'i ddatrys. O safbwynt cul, mae gan hyn y potensial i effeithio ar feysydd megis Ffioedd Cynllunio ac Incwm Rheoli Adeiladu, ond mewn ystyr ehangach mae ganddo'r potensial ar gyfer goblygiadau pellgyrhaeddol o ran Tai a Datblygu Economaidd.

Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23-2025/26

	Cyllideb ddiweddaraf 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb arfaethedig 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2025/26 CYFANSWM £'000	Ffynhonnell Ariannu
Ysgolion a Diwylliant					
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	5,322	11,218	-	-	CSC/Grant
Offer cegin ychwanegol ar gyfer ysgolion (Prydau Ysgol am Ddim)	1,368	-	-	-	Grant
Canolfan trochi iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau	30	3,920	1,425	199	Grant
Ysgolion bro	456			-	Grant
Cymorth i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	456				Grant
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	909	-	-	-	Grant
Darpariaeth Gofal Plant	365	788	-	-	Grant
Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol	2,102	-	-	-	Grant
Ysgolion - Systemau gwresogi o dan y llawr	196	445	150	-	CSC
Ysgolion - Gwaith brys	150	150	150	150	CSC
Cyfanswm - Ysgolion a Diwylliant	11,354	16,521	1,725	349	
Porth Cymorth Cynnar					
Canolfan Lesiant Gymunedol - Llanbedr Pont Steffan	1,440	-	-	-	CSC/Grant
Caeau Chwaraeon Artiffisial	533	282	-	-	CSC/Grant
Grantiau i Byllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul	280	-	-	-	Grant
Uwchraddio Cyfleusterau Canolfannau Llesiant - Chwaraeon Cymru	134	556			CSC/Grant
Canolfannau Llesiant - Gwaith brys	105	300	-	-	CSC
Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar	2,492	1,138	-	-	
Economi ac Adfywio					
Gwaith Trin Carthion	100	625	-	-	CSC
Gwaith brys - Arall	100	100	100	100	CSC
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	175	175	175	175	CSC
Buddsoddiadau - Cynlluniau Ynni	-	750	250	-	CSC
Cyfleusterau Cyhoeddus - Mecanweithiau Codi Tâl	50	-	-	-	CSC
Rhaglen Datblygu Asedau	183	-	-	-	Grant
Neuadd y Farchnad Aberteifi	380	-	-	-	CSC
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau	50	50	50	50	CSC
Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan	82	-	-	-	Grant
Grant Gwella Mynediad	79	103	103	-	Grant
Grant Adferiad Gwyrdd	20	15	-	-	Grant
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Te	150	300	-	-	Grant
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	267	-	-	-	Grant
Prosiectau Ffyniant Bro	1,905	5,564	3,382	-	Grant
Trawsnewid Trefi - Prosiect MASH Aberteifi	540			-	Grant
Datblygiad Tai Hafan y Waun	-	500	500	-	CSC
Cyfanswm - Economi ac Adfywio	4,081	8,182	4,560	325	
Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig					
Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Powys a Cheredigion)	556	1,749	4,910	-	Grant
Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig	556	1,749	4,910	-	
Cyswllt Cwsmeriaid					
Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh	327	390	240	240	CSC
Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid	327	390	240	240	
Cyllid a Chaffael					
Cynllun Grantiau Cymunedol	200	200	200	200	CSC
Cyfanswm - Cyllid a Chaffael	200	200	200	200	
Gwasanaethau Democrataidd					
Cam 2 Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor	32	-	-	-	CSC/Grant
Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd	32	-	-	-	

	Cyllideb ddiweddaraf 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb arfaethedig 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2025/26 CYFANSWM £'000	Ffynhonnell Ariannu
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol					
Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Priffyrdd	2,281	2,200	2,200	2,200	CSC
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	165	-	-	-	Grant
Gwasanaethau Amgylcheddol	90	60	60	60	CSC
Rhaglen Goleuadau Stryd	57	-	-	-	CSC
Trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn	364	-	-	-	Grant
Seilwaith gwefru cerbydau trydan	300	-	-	-	Grant
Cynllun mannau gwefru preswyl ar y stryd	273	-	-	-	Grant
Cyllid Craidd y Gronfa Drafnidiaeth Leol ar gyfer y Coridor Bysiau	250				Grant
Y Gronfa Teithio Llesol - Cyllid craidd	510	-	-	-	Grant
Dyraniad Craidd 20 mya	391	-	-	-	Grant
Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Llanrhystud	40	-	-	-	Grant
Seilwaith bysiau Ceredigion	1,952	-	-	-	Grant
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth	69	-	-	-	Grant
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont	151			-	Grant
Manylion Dylunio Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron	139	-	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth	275	-	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas	23	-	-	-	Grant
Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth	2,000	18,000	3,000	-	CSC/Grant
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol	24	-	-	-	Grant
Cerbydau newydd i'r fflyd	845	750	238	350	CSC
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	-	1,025	-	-	CSC
Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	10,199	22,035	5,498	2,610	
Porth Gofal					
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	1,400	1,400	1,400	CSC
Grantiau Hyrwyddo Annibyniaeth i Bobl yn eu Cartrefi eu Hunain	229	-	-	-	Grant
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	100	-	-	-	Grant/Benthyciad
Cylch Caron	-	252	-	-	CSC/Grant
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	146	146	-	-	Grant
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd	486	-	-	-	Grant
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	78	-	-	-	CSC
Gwaith brys - Cartrefi Preswyl	223	100	100	100	CSC
Canolfannau Dydd - Gwaith Diogelu'r Cyhoedd ac Amgylcheddol	224	-	-	-	CSC
Llety Diogel yn y Sir - ar gyfer Plant	300	200	-	-	CSC/Grant
Gwella ac uwchraddio cartrefi preswyl	499	900	-	-	CSC
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	400	1,600	-	-	Grant
Prosiect Dementia Hafan Deg	370	-	-	-	CSC/Grant
Prynu ac Adnewyddu Eiddo	129	161	-	-	Grant
Cronfa Tai â Gofal	161	-	-	-	Grant
Cyfanswm - Porth Gofal	4,745	4,759	1,500	1,500	
Cyllid i'w ddyrannu	-	556	525	925	CSC
CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH	33,986	55,530	19,158	6,149	
Arian wrth gefn	276	350	350	350	CSC
Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	1,016	4,200	4,200	4,200	£200k CSC/Grant
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL	35,278	60,080	23,708	10,699	

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

STRATEGAETH GYFALAF

1. Bydd y Cyngor yn ffurfio Rhaglen Gyfalaf aml-flwyddyn gyda'r nod o weithio tuag at orwel cynllunio ariannol Cyfalaf hirdymor.

2. Bydd yn ofynnol i holl wariant Cyfalaf a gynlluniwyd, cynigion Cyfalaf a buddsoddiad Cyfalaf arfaethedig mewn asedau sydd eisoes yn bodoli neu asedau newydd, boed hynny drwy gyllid grant neu fel arall, gefnogi Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 a'r Blaenoriaethau Corfforaethol sylfaenol ac amcanion cysylltiedig Gwasanaethau. Dylai Cynllunio Rheoli Asedau fod o gymorth wrth fod yn sail i bennu'r Rhaglen Gyfalaf a gwariant hanfodol ar asedau'r Cyngor sydd eisoes yn bodoli.

3. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol (sy'n rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd priodol i brosiectau), Grŵp Monitro Cyfalaf (sy'n rhoi rheolaeth weithredol ar gyfer gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ariannu) a Grŵp Datblygu (sy'n rhoi mewnbwn strategol ehangach ar gynigion a chyfleoedd datblygu Cyfalaf). Bydd gan y 3 Grŵp rôl allweddol ond mae gan bob un ohonynt eu Cylch Gorchwyl penodol eu hunain.

4. Bydd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn amlinellu sut y bwriedir ymdrin â gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Trysorlys megis Buddsoddiadau a Benthyca gan hefyd alinio'n llawn a rhoi cyfrif am gynigion y Rhaglen Gyfalaf. Bydd hefyd yn cynnwys manylion ar y lefelau benthyca arfaethedig (yn fewnol ac yn allanol) sy'n gyson â'r cynlluniau hyn a'r angen i fod yn ddarbodus. Bydd y Strategaeth Rheoli Trysorlys hefyd yn cynnwys Polisi Isafswm Refeniw'r Cyngor ar gyfer darparu ad-daliad o'r ddyled dros ei hoes.

5. Rheolir y Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan swyddogion sy'n gyfrifwyr â chymwysterau proffesiynol ac sy'n gorfod cyflawni Datblygiad Proffesiynol Gorfodol.

6. Bydd yr egwyddorion arweiniol ar gyfer cynllunio Cyfalaf presennol y Cyngor ac yn y dyfodol yn cynnwys:

    - Sicrhau effeithlonrwydd drwy wneud y defnydd gorau o asedau cyfredol sy'n cynnwys tir ac adeiladau a thechnoleg gwybodaeth. E.e. Dylid rhesymoli adeiladau gwag/na ddefnyddir yn ddigonol, lleihau costau refeniw a hefyd cynhyrchu derbyniadau cyfalaf posib.
    - Mae angen strategaeth ariannu ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr (wedi'i ariannu gan grant neu fel arall) fel rhan o'r achos busnes sy'n cael ei ddatblygu.
    - Bydd y Rhaglen Gyfalaf fel arfer yn cael ei phennu fel na fydd dim Benthyca Darbodus yn cael ei wneud i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf graidd ac eithrio pan fydd yn ariannu prosiectau Cyfalaf penodol. Bydd angen achos busnes i gefnogi Benthyca Darbodus e.e. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio benthyca

darbodus pan fydd yn bosib clustnodi arbedion refeniw a ddefnyddir i ariannu costau ariannol cyfalaf y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol.

- Byddwn yn parhau i ystyried cynlluniau buddsoddi i arbed sy'n sicrhau arbedion refeniw yn dilyn buddsoddiad cyfalaf cychwynnol fel blaenoriaeth uchel am eu bod yn medru darparu cyfraniad positif i sefyllfa gyllidebol refeniw yn y tymor canolig (e.e. mesurau Effeithlonrwydd Ynni). Bydd hyn hefyd yn medru cynnwys cynlluniau sy'n fuddsoddiad cyfalaf er mwyn osgoi cynnydd mewn costau yn y dyfodol.
- Clustnodi, ysgogi a gwneud y gorau o gyfleoedd cyllid grant allanol lle y bo hynny'n bosib, er ar ei ben ei hun mae'n bosib nad yw hyn bob amser y prif beth sy'n gyrru prosiectau cyfalaf.
- Dylid ystyried strategaethau ymadael fel rhan o unrhyw gais am gyllid grant a grantiau y llwyddwyd eu denu.
- Caiff cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi eu cynnal drwy ddarparu arian am un tro yn unig i gefnogi'r rhaglen Gyfalaf. Mewn achosion lle gellir cyflawni arbedion refeniw cyn gofynion y gyllideb flynyddol mae'n bosib y cânt eu dynodi i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn cefnogi blaenoriaethau Cyfalaf yn y dyfodol. Yn benodol, bydd cyfraniad arian cyfatebol y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B yn cael ei gefnogi'n bennaf drwy gyllid a neilltuwyd yng nghronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl.
- Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad positif i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a chânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Caiff rhestr o'r asedau arfaethedig y bwriedir eu gwaredu ei chynnal a'i monitro'n rheolaidd. Pan fydd angen ystyrir yn briodol unrhyw achos lle bydd asedau mawr yn cael eu gwaredu.
- Os bydd Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gael gan Lywodraeth Cymru bydd yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio fel, pryd ac os bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fel swyddog Adran 151 yn ystyried hyn yn briodol:
- Bydd y Cyngor yn parhau i feddu ar Eiddo Buddsoddi fel rhan o'i Ystâd Gorfforaethol. Mae hwn yn weithgarwch masnachol wrth i'r Cyngor geisio roi eiddo ar brydles ar bris y farchnad a thrwy hynny cael adenillion masnachol o'r eiddo. Ar hyn o bryd mae gweithgarwch masnachol y Cyngor yn risg isel am nad yw'n elfen sylweddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Petai unrhyw gyfleoedd newydd yn dod ar gael bydd angen llunio achos busnes fydd yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cod Materion Ariannol (Rhagfyr 2021) sy'n gwahardd benthyca mewn sefyllfaoedd lle bo sicrhau adenillion ariannol yn brif nod, a bod defnyddio cyngor mewnol/allanol arbenigol lle y bo'n briodol yn ogystal â dilyn y trefniadau llywodraethu priodol.
- Ymgymerir â diwydrwydd dyladwy priodol mewn perthynas â natur, graddfa a maes gweithgarwch wrth ystyried grantiau Cyfalaf i 3ydd partïon o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

7. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol yn ei Raglen Gyfalaf:

    - Gweithio gyda'r sector preifat a chyhoeddus ar draws y rhanbarth drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro, er mwyn hybu'r economi leol a rhanbarthol.
    - Gweithredu Strategaeth Economaidd Ceredigion

    a) Creu cymunedau gofalgar ac iach gan gynnwys
        - Darparu arian ar gyfer grantiau Cyfleusterau mandadol a dewisol i'r Anabl.
        - Adolygu a datblygu cynlluniau llety preswyl arbenigol naill ai gan y Cyngor neu ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill.
        - Cylch Caron – prosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal Tregaron
        - Sefydlu canolfannau lles

    b) Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu o bob oed gan gynnwys
        - Parhau i foderneiddio Ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a llwybrau ariannu eraill.

    c) Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd gyda chysylltiadau da gan gynnwys
        - Datblygu cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir
        - Rheoli Carbon - Ceisio lleihau ymhellach gollyngiadau carbon a gostwng costau ynni gymaint â phosib er mwyn mynd i'r afael â chynnydd yn y dyfodol drwy alluogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn asedau'r Cyngor yn ogystal â'r stoc breifat a stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
        - Cerbydau newydd – Adolygu fflyd ehangach yr awdurdod ar draws holl wasanaethau a phontio tuag at fflyd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.
        - Gwelliannau hanfodol i Adeiladau, Pontydd a Ffyrdd.